Archwilio Cymru
Audit Wales

# Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – Gwersi o Waith Archwilio i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru

2019-20 i 2023-24

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o'r gwaith a wnaed o dan Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 7

Dylai cynghorau fod yn ymwybodol o’r canllawiau helaeth sydd ar gael i’w helpu 10

Casgliad 10

## Adroddiad manwl

Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gyflwyno ac archwilio cyfrifon cynghorau cymuned mewn modd amserol 11

Mae cynghorau cymuned yn rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus ond nid yw llawer yn cyfrifo eu gofynion cyllidebol yn unol â’r gyfraith 17

Mae nifer yr archwiliadau amodol yn dal i fod yn rhy uchel gyda llawer o gynghorau’n gwneud camgymeriadau cyffredin, hawdd i’w hosgoi 26

Mae trefniadau archwilio newydd yn adnabod materion sylweddol sy’n gyffredin ar draws y sector 36

O ganlyniad i broblemau sylweddol mewn 23 o gynghorau fe gyhoeddais argymhellion statudol neu adroddiadau er budd y cyhoedd rhwng 2019 a 2024 43

## Atodiadau

1 Trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru 47

2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 51

3 Rhaglen archwilio yn y dyfodol 54

4 Adroddiadau er budd y cyhoedd ac argymhellion statudol 61

5 Ffioedd archwilio 64

6 Arweiniad pellach 65

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**Mae gan gynghorau tref a chymuned rôl ganolog mewn bywyd lleol ond mae eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu cadarn**

1 Mae tua 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru sy'n gweithredu fel haen gyntaf llywodraeth leol yng Nghymru. Mae cynghorau cymuned yn cynnwys aelodau etholedig ac mae ganddynt bwerau a hawliau disgresiwn a osodir gan y Senedd. Mewn rhai achosion, mae'r cynghorau hyn yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau trwy gydbwyllgorau a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau penodol, fel arfer gwasanaethau claddu. Ar hyn o bryd, ceir pum cydbwyllgor o'r fath yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyrff hyn fel cynghorau cymuned.

2 Mae gan gynghorau cymuned rôl hollbwysig i feithrin cymunedau cryf, bywiog a chefnogi datblygiad lleol. Fodd bynnag, mae eu heffaith yn dibynnu ar drefniadau rheolaeth ariannol a llywodraethu cadarn. Mae cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i system atebolrwydd eang sy'n ymgorffori adroddiadau cyhoeddus a chyfrifon blynyddol yn ogystal â'r cylch etholiadol arferol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu o'r heriau y mae cynghorau cymuned yn eu hwynebu a'r adnoddau sydd ar gael i bob cyngor i'w helpu i wynebu'r heriau hynny.

## Mae fy archwiliad allanol yn rhan hanfodol o’r fframwaith atebolrwydd ar y cyfan ar gyfer cynghorau cymuned

4 Nodir fy nghyfrifoldebau am archwilio cynghorau cymuned unigol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014).

5 I grynhoi, mae Deddf 2004 a Rheoliadau 2014 yn gosod y cyfrifoldebau canlynol ar gynghorau a’r Archwilydd Cyffredinol:

- rhaid i gyngor lunio ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Dylai’r cyfrifon hyn gael eu hardystio gan swyddog cyllid cyfrifol y cyngor a’u cymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Mehefin. Rhaid i’r Cyngor gyflwyno’r cyfrifon i’r Archwilydd Cyffredinol. Rhaid cyflwyno datganiad ar reolaeth fewnol gyda’r cyfrifon.
- rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol archwilio’r cyfrifon a rhoi barn ar y cyfrifon. Hefyd, rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ystyried a oes unrhyw faterion sy’n codi wrth archwilio y dylid adrodd arnynt yn gyhoeddus.

6 Mae fy nhrefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned wedi’u bwriadu i gyflawni fy nyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2004 ac i roi sicrwydd sy’n gymesur â maint cynghorau unigol a’r risg i bwrs y wlad. Mae’r archwiliad yn seiliedig ar egwyddor allweddol y dylai’r rhai sy’n codi ac yn gwario trethi lleol gael eu dwyn i gyfrif am y modd y defnyddir y trethi lleol hynny. Ceir rhagor o fanylion am y broses archwilio yn **Atodiad 1**.

## Mae fy ngwaith archwilio'n parhau i adnabod heriau sylweddol i gynghorau cymuned yng Nghymru

7 Mae Deddf 2004 yn nodi fy nghyfrifoldebau i fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau cymuned. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adrannau 17 a 23: dyletswyddau cyffredinol i sicrhau bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, i roi barn ar y cyfrifon ac i fod wedi fy argyhoeddi bod y cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- Adran 22: dyletswydd i ystyried a ddylwn i, er budd y cyhoedd, lunio adroddiad ynghylch unrhyw fater a ddaw i sylw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod yr archwiliad; ac
- Adrannau 30 a 31: dyletswydd i wneud trefniadau i etholwyr ofyn cwestiynau ynghylch y cyfrifon neu gyflwyno gwrthwynebiadau iddynt.

8 Ers 2011-12, rwyf wedi cyhoeddi adroddiadau sy'n crynhoi fy nghanfyddiadau archwilio ar draws y sector ac yn amlygu gwendidau sylweddol mewn trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol. Hefyd, mae staff Archwilio Cymru wedi mynychu a siarad mewn amryw gynadleddau a chyfarfodydd sector i egluro ein canfyddiadau a sut y gall cynghorau fynd i'r afael â'r materion sy'n codi. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae gormod o gynghorau yn dal i fethu â chyrraedd y safonau sylfaenol a ddisgwylir gan y rhai sy'n gyfrifol am reoli arian cyhoeddus.

9 Mewn ymateb i'r nifer fawr o wallau/materion a nodwyd mewn archwiliadau blynyddoedd ynghynt, cyflwynais drefniadau archwilio newydd yn 2021-22. Felly, mae archwiliadau 2023-24 yn nodi diwedd y cylch tair blynedd cyntaf a nodir yn y trefniadau hyn. Rwyf wedi cwblhau cyfran fawr o archwiliadau 2023-24 ac, felly, mae'n briodol edrych ar fy nghanfyddiadau archwilio a dod i gasgliadau ar gyfer y sector cyfan. Caiff canfyddiadau allweddol fy ngwaith archwilio eu nodi isod ac maent yn cael sylw manylach yng ngweddill yr adroddiad hwn.

# Canfyddiadau allweddol

10 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau unedol wedi ceisio trosglwyddo asedau a gwasanaethau i gynghorau cymuned. Mae'r cyfrifoldebau cynyddol hyn yn golygu bod mwy a mwy o angen i sicrhau bod gan gynghorau cymuned systemau cadarn o ran rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a llywodraethu.

## Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys cyflwyno ac archwilio cyfrifon

11 Roedd cyfrifon 2019-20 yn drobwynt i gynghorau cymuned. Fe wnaeth COVID-19 amharu'n sylweddol ar weithgareddau cynghorau a chyfrannu at oedi hir a hyd yn oed peidio â chyflwyno cyfrifon i'w harchwilio. Mae'r materion hyn yn parhau, gyda thros 70 o gynghorau heb gyflwyno eu cyfrifon ar gyfer 2023-24 i'w harchwilio erbyn 31 Rhagfyr 2024.

12 Mae rhai cynghorau yn syml wedi rhoi'r gorau i gyflwyno cyfrifon. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi codi oherwydd bod clercod wedi ymddiswyddo neu ymddeol, a bod y clercod newydd heb gael gwybod am yr angen i gyflwyno cyfrifon i'w harchwilio.

13 Yn aml, nid yw cynghorau'n hysbysu fy nhîm ynghylch newidiadau mewn clercod ac, felly, nid oes gennym wybodaeth gyswllt gyfredol, ac nid yw'r hysbysiadau archwilio blynyddol yn cyrraedd y clercod newydd.

14 Mewn rhai achosion, nid yw clercod yn cyflwyno cyfrifon nes eu bod wedi cael cyfrifon archwiliedig y flwyddyn ynghynt yn ôl gan fy nhîm archwilio.

15 Mae'n bwysig bod pob cyngor yn ymgyfarwyddo â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifon ac archwiliadau. Mae Un Llais Cymru wedi paratoi dogfen i helpu cynghorau sy'n dwyn y teitl **Amserlen Camau Gweithredu Ariannol**.

16 Fe wnaeth y pandemig gyd-daro â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gwblhau archwiliadau o gwmnïau archwilio allanol i Archwilio Cymru ac fe arweiniodd at oedi cyn cyflwyno'r trefniadau archwilio newydd. Mae oedi sylweddol cyn cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio a diffygion yn ansawdd y wybodaeth a gyflwynwyd wedi cyfrannu, ochr yn ochr ag effaith COVID-19 ar weithrediadau Archwilio Cymru, at ôl-groniad parhaus o waith archwilio nad yw ond yn cael ei glirio yn awr.

## Mae'r sector yn parhau i dyfu ac yn rheoli symiau bythol gynyddol o arian cyhoeddus

17 Adroddais yn flaenorol sut y mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn codi trethi lleol sy'n fwy na'i wariant blynyddol. Mae'r duedd hon wedi parhau dros y pedair blynedd ddiwethaf ac wedi cael ei gwaethygu gan effaith COVID-19 a threfniadau'r cyfyngiadau symud a ymestynnodd trwy 2020 a 2021.

18 Mae'r gwariant ar y cyfan hefyd wedi cynyddu dros y pedair blynedd ddiwethaf ac, yn dilyn cwymp sylweddol yn 2020-21, fe gododd yn ôl i lefelau cyn COVID-19 yn ystod 2021-22, cyn cynyddu ymhellach.

19 Yn fy adroddiadau blaenorol, mynegais bryder nad oedd cynghorau'n gweithredu yn unol â'r gyfraith berthnasol ynghylch sut y dylent godi trethi lleol. Mae fy nadansoddiad o sefyllfa ariannol y sector dros y pedair blynedd ddiwethaf yn awgrymu bod llawer o gynghorau'n parhau i godi symiau gormodol mewn trethi lleol.

## Mae fy nghanfyddiadau archwilio'n nodi materion parhaus o fewn y sector nad ymdriniwyd yn briodol â hwy

20 Amlygodd fy adroddiadau blaenorol faterion a oedd yn digwydd dro ar ôl tro ar draws y sector. Adnabûm y materion hyn yn dilyn dull archwilio a oedd yn dilyn gweithdrefnau cyfyngedig. Ers 2021-22, mae fy ngwaith archwilio manylach wedi cadarnhau nad yw'r sector wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn briodol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r materion parhaus a systemig yn y sector sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

21 Mae nifer cynyddol o gynghorau'n cyflwyno ffurflenni blynyddol nad ydynt wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol, megis trwy ddarparu cyfrifon sy'n rhifyddol anghywir neu'n anghyflawn. Ar gyfer archwiliadau 2023-24, cyflwynodd tua 30% o gynghorau gyfrifon nad oeddent yn gwneud cyfanswm cywir. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnydd ar y cyfan yn nifer y barnau archwilio amodol yr wyf wedi'u cyhoeddi.

22 Un o'r materion mwyaf cyffredin a adnabuwyd gan archwilwyr a oedd yn arwain at farn amodol oedd bod cynghorau'n peidio â chyhoeddi gwybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt ei chyhoeddi.

23 Mae fy archwilwyr hefyd wedi canfod ei bod yn fwyfwy anodd gwirio trafodiadau, gan bod y cofnodion cyfrifyddu a ddarperir gan gynghorau yn aml yn annigonol, yn anghyflawn ac ymhell islaw fy nisgwyliadau. Gan bod cofnodion cyfrifyddu'n wael, mae'n dod yn fwyfwy cyffredin bod cynghorau'n methu â dangos sut y gwnaed penderfyniadau a sut y maent wedi sicrhau gwerth am arian.

## Mewn rhai achosion, adnabûm faterion mewn cynghorau unigol yr ystyriais ei bod yn angenrheidiol cyhoeddi adroddiad mwy cyhoeddus arnynt

24 Yn y rhan fwyaf o achosion, rwy'n crynhoi fy nghanfyddiadau archwilio ac unrhyw argymhellion mewn adroddiad archwilio a atodir wrth ffurflen flynyddol y cyngor. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae cynghorau wedi colli symiau sylweddol o arian na fyddai wedi digwydd, yn fy marn i, pe bai cynghorau wedi mynd i'r afael â'r materion systematig. Yn yr achosion hyn, rwy'n ystyried ei bod yn briodol cyhoeddi adroddiad mwy helaeth a bod yr adroddiad neu'r argymhellion yn cael ystyriaeth gan y cyngor mewn cyfarfod llawn, a bod y cyngor yn darparu ymateb ysgrifenedig.

25 Ers mis Ionawr 2020, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau o'r fath i 23 o gynghorau ledled Cymru.

## Dylai cynghorau fod yn ymwybodol o'r canllawiau helaeth sydd ar gael i'w helpu

26 Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) yn cyhoeddi Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn cael ei gydnabod fel arfer cyfrifyddu priodol gan Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

27 Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn disgrifio sut y dylai cynghorau gynnal cofnodion cyfrifyddu a pharatoi eu cyfrifon blynyddol. Mae hefyd yn disgrifio sut y gall cynghorau weithredu system o reolaethau mewnol ac mae'n esbonio'r broses archwilio. Mae ar gael i bob cyngor yn rhad ac am ddim o wefan Un Llais Cymru.

28 Ym mis Mehefin 2022, fe wnaeth Un Llais Cymru, SLCC, a Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Datblygwyd y pecyn cymorth yn benodol i helpu pob cyngor i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau neu wendidau yn eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol, i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac i gyflawni'r deilliannau gorau i'w cymunedau.

29 Mae'r pecyn cymorth yn ganllaw cynhwysfawr i gynghorau o bob maint. Mae'n ymdrin â'r materion allweddol y mae fy archwilwyr yn eu nodi'n gyffredin fel gwendidau yn nhrefniadau cynghorau. Rwy'n annog cynghorau i adolygu eu trefniadau yn erbyn y mesurau a nodir yn y pecyn cymorth, gan y bydd hyn yn eu helpu i osgoi'r materion mwyaf cyffredin sy'n peri i mi gyhoeddi barn archwilio amodol. Rwy'n gweithio gydag Un Llais Cymru ac SLCC ar hyn o bryd i archwilio sut orau y gellir defnyddio'r pecyn cymorth i ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad cyfrifyddu blynyddol.

## Casgliad

30 Mae fy ngwaith archwilio'n parhau i adnabod materion parhaus ar draws y sector. Mae angen i gynghorau cymuned sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion y cawsant eu hysbysu'n uniongyrchol yn eu cylch trwy fy marnau ac adroddiadau archwilio blynyddol a'r rhai a nodir yn yr adroddiad hwn.

31 Mae angen i gynghorau cymuned weithredu mewn modd pendant i greu dyfodol cryfach a mwy atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

# Adroddiad manwl

## Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gyflwyno ac archwilio cyfrifon cynghorau cymuned mewn modd amserol

### Mae Deddf 2004 a Rheoliadau 2014 yn nodi'n glir beth yw'r gofynion statudol ar gyfer paratoi ac archwilio datganiadau cyfrifyddu cynghorau cymuned

32 Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned lunio eu cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chael archwilio'r cyfrifon hynny gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 2004 hefyd yn darparu bod etholwyr lleol yn cael gofyn cwestiynau ynghylch y cyfrifon neu gyflwyno gwrthwynebiadau iddynt wrth iddynt gael eu harchwilio.

33 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.

34 Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar swyddog cyllid cyfrifol y cyngor a'r Cyngor ei hun.

35 Rhaid i'r swyddog cyllid cyfrifol baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu cyfrifon yn cyflwyno darlun priodol o dderbyniadau a thaliadau'r cyngor neu'n cyflwyno darlun teg o sefyllfa incwm, gwariant ac ariannol y cyngor. Mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn ardystio'r datganiadau cyfrifyddu trwy eu llofnodi a rhoi'r dyddiad arnynt. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys darpariaethau ar gyfer llofnod a dyddiad.

36 Rhaid i'r aelodau, a hwythau'n ymgynnull fel cyfangorff, adolygu'r datganiadau cyfrifyddu. Ar ôl yr adolygiad hwn, rhaid iddynt gymeradwyo'r datganiadau i'w cyflwyno i'r archwilydd trwy basio penderfyniad. Ar ôl eu cymeradwyo, rhaid iddynt sicrhau bod y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod yn llofnodi'r datganiadau cyfrifyddu ac yn rhoi'r dyddiad arnynt.

37 Rhaid i'r swyddog cyllid cyfrifol a'r Cyngor gyflawni'r cyfrifoldebau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

38 Ar ôl cymeradwyo cyfrifon, rhaid i gynghorau gyflwyno’r cyfrifon i mi i’w harchwilio. Mae methu â gwneud hynny’n brydlon yn effeithio ar fy ngallu i ddarparu adnoddau ar gyfer yr archwiliad mewn modd effeithiol ac yn creu oedi gyda fy ngwaith archwilio.

## Rwy’n pryderu bod nifer cynyddol o gynghorau’n cyflwyno cyfrifon yn hwyr neu’n peidio â chyflwyno cyfrifon i’w harchwilio heb fewnbwn ychwanegol sylweddol gan staff Archwilio Cymru

39 Bob blwyddyn, rwy’n cyflwyno hysbysiad archwilio i bob cyngor. Mae’r hysbysiad hwn yn nodi’r dyddiad cyntaf y gall etholwyr ofyn cwestiynau neu gyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod y broses archwilio ac mae’n darparu amserlen ar gyfer cyflwyno’r cyfrifon i’w harchwilio. Fel arfer, dylid cyflwyno’r cyfrifon i'w harchwilio erbyn canol mis Awst fan bellaf.

40 Fodd bynnag, mae gormod o gynghorau’n diystyru’r amserlen hon gan ei gwneud hi’n anodd cynllunio fy ngwaith archwilio. Mewn rhai achosion, nid yw cynghorau’n darparu cyfrifon i’w harchwilio heb fewnbwn pellach sylweddol gan staff Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 1: cyflwyno cyfrifon yn hwyr**

Mae tua 20% o gynghorau’n sylweddol hwyr yn cyflwyno cyfrifon i’w harchwilio bob blwyddyn. Mae grŵp bach o gynghorau sydd heb gyflwyno cyfrifon ers cryn dipyn o amser.

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfrifon yr oedd yn bryd eu harchwilio | 740 | 740 | 737 | 737 |
| Cyfrifon a gyflwynwyd i’w harchwilio erbyn 15 Awst yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn | 485 | 516 | 509 | 545 |
| Cyfrifon a gyflwynwyd ar amser (%) | 66% | 70% | 69% | 74% |
| Cyfrifon a gyflwynwyd i’w harchwilio erbyn 30 Medi yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn | 589 | 588 | 564 | 576 |
| Cyfrifon nas cyflwynwyd i’w harchwilio erbyn 30 Medi yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn | 151 | 152 | 173 | 161 |
| Cyfrifon a oedd yn hwyr ar 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn (%) | 20% | 20% | 23% | 22% |
| Cyfrifon nas cyflwynwyd ar 31 Rhagfyr 2024 | 11 | 11 | 31 | 71 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

41 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod rhwng 26% a 34% o gynghorau yn methu â chyflwyno cyfrifon bob blwyddyn erbyn y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad archwilio a gyflwynir i gynghorau. Ar ddiwedd mis Awst bob blwyddyn, rydym yn anfon neges atgoffa at bob cyngor sy'n hwyr yn eu cyflwyno gan ofyn iddynt eu cyflwyno erbyn 30 Medi fan bellaf. Er gwaethaf y negeseuon atgoffa hyn, mae tua 20% o gynghorau yn methu ag ymateb trwy gyflwyno cyfrifon erbyn 30 Medi, ac maent yn sylweddol hwyr yn cyflwyno cyfrifon.

42 Er bod y sefyllfa ar gyfer pob un o'r pedwar cylch archwilio diwethaf yn parhau'n gyson o flwyddyn i flwyddyn, mae hyn yn ddirywiad sylweddol dros amser. Mae'r data sydd gennym yn nodi, ar gyfer cyfrifon 2015-16, mai dim ond 17 cyngor oedd heb gyflwyno eu cyfrifon erbyn 30 Medi 2016 (2%).

43 Mae cynghorau sy'n methu â chyflwyno ffurflen flynyddol yn brydlon yn creu pwysau a llwyth gwaith ychwanegol gan bod archwilwyr yn treulio amser yn mynd ar ôl y cynghorau a'r clercod. Gall fy archwilwyr hefyd roi gweithdrefnau archwilio mwy helaeth ar waith i ganfod y rhesymau dros yr oedi cyn eu cyflwyno/dros beidio â'u cyflwyno. Mae hyn i gyd yn arwain at gostau a ffioedd ychwanegol.

44 Mae'n bwysig bod pob cyngor yn sicrhau bod ei gyfrifon wedi'u paratoi a'u cymeradwyo erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn a'u bod wedyn yn cael eu hanfon i mewn i'w harchwilio. Os na chyflwynir y cyfrifon blynyddol i'r cyngor ar amser, dylai cynghorau wastad gofyn am eglurhad a chytuno ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon i'r cyngor i'w cymeradwyo.

## Dylai cwblhau archwiliadau mewn modd amserol a dychwelyd at gydymffurfio â'r amserlen statudol fod yn uchelgais i'r sector

45 Adroddais ddiwethaf mai dim ond 486 (66%) o'r archwiliadau a gwblhawyd erbyn 30 Medi ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2017-18. Ers hynny, mae'r sefyllfa hon wedi gwaethygu o hyd. Ar gyfer 2022-23, dim ond 154 (20%) o'r archwiliadau a gwblhawyd ar amser. Ar gyfer 2023-24, 116 (16%) yw'r ffigyrau.

46 Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad o ran cwblhau archwiliadau mewn modd amserol, a'r mwyaf arwyddocaol fu pandemig COVID-19.

47 Cafodd gwaith archwilio ar gynghorau ei ohirio oherwydd y pandemig yn 2019-20 a 2020-21, er mwyn galluogi cynghorau i ymateb i’r argyfwng. Fe grëodd hyn ôl-groniad sylweddol i’m harchwilwyr fynd i’r afael ag ef.

48 Er bod rôl y pandemig wedi bod yn arwyddocaol, mae materion systemig o fewn y sector yn rhwystr i gwblhau gwaith archwilio hefyd, gan gynnwys methiant cynghorau i ddarparu ffurflenni blynyddol a gwybodaeth arall yn brydlon.

49 Mae cynghorau’n rheolaidd wedi methu â darparu gwybodaeth ddigonol i’m harchwilwyr i wirio’r hyn yr adroddwyd arno yn y ffurflen flynyddol. Ar gyfer y cyfnod o flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen, rwyf wedi cyhoeddi 173 o dystysgrifau archwilio amodol oherwydd nad yw cynghorau wedi darparu gwybodaeth ddigonol i’w harchwilio.

50 Mae’r amser y mae fy archwilwyr yn ei dreulio ar archwiliadau’n cynyddu i’r cynghorau hynny sy’n methu â darparu gwybodaeth, gan y bydd fy archwilwyr yn treulio amser yn gofyn am wybodaeth yn hytrach nag yn cyflawni gweithdrefnau archwilio. Mae hyn yn cynyddu ôl-groniad yr archwiliadau heb eu cwblhau ac yn arwain at gostau ychwanegol i’r cyngor a ysgwyddir yn y pen draw gan dalwyr y dreth gyngor.

## Mae’r archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau teirblynyddol yn cymryd yn hwy na’r disgwyl i’w cwblhau oherwydd nifer o ffactorau

51 Mae’r trefniadau archwilio cyfredol yn cynnwys cynnal archwiliad seiliedig-ar-drafodiadau o leiaf unwaith bob tair blynedd, y cyfeirir ato fel ‘archwiliad llawn’ o fewn y sector.

52 2021-22 oedd y flwyddyn gyntaf i’m harchwilwyr gynnal archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau mewn cynghorau tref a chymuned.

53 Bu nifer o ffactorau sydd wedi cyfrannu at amseroldeb gwael cwblhau archwiliadau:

- o ganlyniad i COVID-19 a’r cyfyngiadau a osodwyd ar gynghorau, ni chwblhawyd nifer fawr o archwiliadau o gyfrifon 2019-20 yn ystod 2020.
- ym mis Rhagfyr 2020, trosglwyddwyd yr holl archwiliadau a oedd yn dal heb eu cwblhau o’m cyflenwyr archwilio blaenorol i Archwilio Cymru i’w cwblhau. Cafodd dros 450 o’r archwiliadau a oedd heb eu cwblhau eu trosglwyddo i Archwilio Cymru pryd hynny.
- bob blwyddyn, mae nifer fawr o gynghorau’n cyflwyno eu cyfrifon yn hwyr ac fe geir nifer cynyddol o gynghorau sy’n methu â chyflwyno cyfrifon yn gyfan gwbl.

54 Mae archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau yn aml yn wynebu oedi oherwydd bod cynghorau'n methu â chyflwyno'r cofnodion gofynnol i'w harchwilio er bod y gofynion wedi'u nodi'n glir yn yr hysbysiad archwilio. Er enghraifft, o'r 49 o archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau sydd heb eu cwblhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, mae 34 naill ai heb gyflwyno cyfrifon, wedi cyflwyno cofnodion anghyflawn neu wedi darparu'r dogfennau llawn ar gyfer yr archwiliad yn hwyr. Mae'r 15 archwiliad arall yn dal heb eu cwblhau oherwydd bod angen gwaith archwilio sydd heb gael ei wneud eto neu fod archwiliadau o flynyddoedd ariannol cynharach yn dal i fod ar agor.

55 Byddaf yn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cyffredin mewn canllawiau i gynghorau a fydd wedi'u hatodi wrth hysbysiad archwilio 2024-25 a gyhoeddir ym mis Mawrth 2025.

## Mae methiant systematig cynghorau i gydymffurfio â Deddf 2004 a Rheoliadau 2014 ar gyfer paratoi, cymeradwyo a gwneud trefniadau ar gyfer arfer hawliau etholwyr yn ffactor arwyddocaol o ran cwblhau archwiliadau mewn modd amserol

56 Un o'r materion mwyaf cyffredin sy'n codi ac yn arwain at farn amodol yw nad yw cynghorau'n paratoi ac yn cymeradwyo cyfrifon erbyn 30 Mehefin. Rwy'n aml yn canfod, ar gyfer y cynghorau hynny nad ydynt wedi paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Mehefin, eu bod hefyd yn methu â gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau i edrych ar y cyfrifon:

- os bydd cynghorau'n colli'r dyddiad cau, sef 30 Mehefin, mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi hysbysiad yn esbonio'r oedi wrth baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon. Rwy'n cyhoeddi barn amodol lle nad oes rhybudd wedi cael ei gyhoeddi.
- os nad yw cynghorau'n gallu ymlynu wrth y terfynau a fframiau amser statudol hyn, daw'n fwyfwy tebygol na fyddant yn gallu darparu eu ffurflenni blynyddol a gwybodaeth archwilio arall ar amser.

**Arddangosyn 2: cynghorau a gafodd farn amodol o ganlyniad i gymeradwyo cyfrifon yn hwyr**

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cynghorau a gafodd farn amodol am beidio â pharatoi a chymeradwyo cyfrifon ar amser | 126 | 71 | 50 | 124 | 98[1] |
| Nifer y cynghorau na wnaethant drefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau i edrych ar y cyfrifon | 69 | 25 | 59 | 73 | 29 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

57 Mae'r sector, yn ei gyfanrwydd, wedi cael anawsterau hirsefydlog o ran cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Mewn llawer o achosion, y rheswm dros hyn yw diffyg dealltwriaeth; mewn eraill, amryfusedd ydyw.

58 Ers 2018-19, er mwyn cynorthwyo cynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau, rwyf wedi nodi dyddiad cyffredin ar gyfer arfer hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau neu gyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod y broses archwilio. Mae fy archwilwyr wedi rhoi hysbysiad archwilio i bob cyngor sy'n nodi'r dyddiadau pan ddylai cynghorau sicrhau bod eu cyfrifon ar gael i etholwyr edrych arnynt ac yn nodi'r dyddiad y dylid dechrau hysbysebu'r cyfnod ar gyfer edrych ar y cyfrifon.

59 Felly, rwy'n siomedig i nodi, er iddynt gael rhybudd clir ymlaen llaw o ddyddiad cyson, bod cynghorau wedi parhau i fethu â chydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Yn fy marn i, mae torri'r gofynion statudol yn sylweddol yn effeithio'n andwyol ar fy ngallu i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol.

1 Gall nifer y cynghorau gynyddu wrth i ni gwblhau gwaith archwilio ar gyfrifon a gyflwynwyd yn hwyr.

## Mae cynghorau cymuned yn rheoli symiau cynyddol o arian cyhoeddus ond nid yw llawer yn cyfrifo eu gofynion cyllidebol yn unol â'r gyfraith

60 Yn fy adroddiadau blaenorol, fe wnes i sylw ar y symiau cynyddol o arian sy'n cael eu rheoli gan y sector. Mae'r duedd hon wedi parhau dros y pedair blynedd ddiwethaf.

61 Prif ffynhonnell incwm cynghorau cymuned yw eu praesept blynyddol. Gorchymyn ddiymwad yw praesept i'r awdurdod unedol dalu swm penodol o arian i'r cyngor cymuned. Codir swm y praesept ar dalwyr treth gyngor y gymuned ac fe'i telir yn llawn i'r cyngor cymuned.

62 Nodais fod cynghorau, bob blwyddyn, yn codi mwy o arian trwy eu praesept a derbyniadau eraill nag y maent yn ei wario. Yn 2020-21, gwaethygwyd y sefyllfa hon gan bandemig COVID-19. Mewn llawer o achosion, oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol a'r cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, nid oedd y rhan fwyaf o gynghorau'n gallu darparu eu lefel arferol o wasanaethau. Fodd bynnag, oherwydd amseriad y cyfyngiadau symud cychwynnol, fe wnaethant barhau i gael eu praesept a gyllidebwyd yn llawn[2].

63 Roedd hyn yn golygu bod gan gynghorau, erbyn diwedd 2020-21, symiau cynyddol mewn cronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, methodd llawer ag ystyried y cronfeydd wrth gefn hyn wedyn wrth bennu eu cyllidebau a'u praeseptau ar gyfer 2021-22 a'r blynyddoedd dilynol.

64 Mae'r adran hon o'm hadroddiad yn darparu dadansoddiad lefel uchel o sefyllfa ariannol y sector ac yn cynnig sylwebaeth ar sut y gall cynghorau fynd i'r afael â rhai o'r materion ariannol y maent yn eu hwynebu yn y dyfodol agos.

2 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gadarnhau'r praesept un mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol h.y. erbyn 1 Mawrth. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n cadarnhau'r praesept yn gynharach na hyn i gynorthwyo awdurdodau unedol i weinyddu'r dreth gyngor. Felly, mae hyn yn golygu bod ceisiadau am braeseptau wedi cael eu gwneud cyn i Lywodraeth Cymru gychwyn trefniadau ar gyfer y cyfyngiadau symud a bod cynghorau cymuned wedi cael eu praesept llawn am y flwyddyn.

## Mae cyfanswm yr arian a godir gan gynghorau cymuned wedi parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2018-19

65 Cododd y 734 o gynghorau tref a chymuned a'u pum cydbwyllgor a gwmpesir gan yr adroddiad hwn dros £245.7 miliwn rhwng 2019-20 a 2022-23[3]. Mae cynghorau cymuned yn codi incwm naill ai trwy osod praesept, trwy godi tâl am nwyddau a gwasanaethau, trwy hawlio grantiau neu drwy waredu asedau hirdymor.

66 Mae cynghorau hefyd yn codi arian trwy godi tâl am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor cymuned. Fel arfer, gellir codi tâl am y canlynol:

- defnydd o neuaddau pentref/canolfannau cymunedol sy'n eiddo i'r cyngor cymuned ac yn cael eu rheoli ganddo;
- ffioedd claddu lle mae'r cyngor cymuned yn awdurdod claddu;
- ffioedd llogi ar gyfer cyfleusterau chwaraeon; a hefyd
- costau parcio ceir.

67 Hefyd, gall cynghorau godi arian ar gyfer buddsoddiadau hirdymor mewn asedau trwy geisiadau am grantiau, benthyciadau, neu waredu asedau, gydag arian o'r fath fel arfer yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol.

68 Mae cydsyniad ffurfiol Gweinidogion Cymru gan ddefnyddio pwerau o dan baragraff 2, Atodlen 1, Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn galluogi cyngor tref neu gymuned i gael benthyg arian at ddibenion cyfalaf. Mae cynghorau wedi cael dros £7.2 miliwn mewn trefniadau benthyca newydd ers 2018-19. Mae gwerth y ddyled wedi cynyddu £6.3 miliwn (9.3%) ers 2018-19[4].

69 Ers 2018-19, mae cyfanswm incwm cynghorau cymuned wedi cynyddu £11.3 miliwn (21%) i £65.4 miliwn (2022-23). Yn yr un cyfnod, fe wnaeth cyfanswm y praesept a godir ar dalwyr y dreth gyngor ledled Cymru gynyddu £8.5 miliwn (21%).


70 Mae derbyniadau o ffynonellau eraill hefyd wedi cynyddu £ 2.7 miliwn o ychydig o dan £13.5 miliwn yn 2018-19 i ychydig dros £16.2 miliwn yn 2022-23.

3 Nid oes data dibynadwy ar gyfer 2023-24 ar gael eto gan nad oedd 10% o gynghorau wedi cyflwyno cyfrifon erbyn 31 Rhagfyr 2024.

4 Mae arian a dderbyniwyd trwy fenthyca yn cael ei gynnwys o fewn cyfanswm derbyniadau eraill ar y ffurflen flynyddol.

**Arddangosyn 3: incwm cynghorau cymuned 2018-19 i 2022-23**

Mae cyfanswm incwm cynghorau cymuned wedi cynyddu bob blwyddyn, o £54.1 miliwn yn 2018-19 i £65.4 miliwn yn 2022-23. Mae cyfanswm y praesept wedi cynyddu £8.6 miliwn i £49.2 miliwn ers 2018-19.




* Nid yw'r data hwn yn cynnwys y cynghorau hynny nad ydynt wedi cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru


## Mae gwariant cynghorau cymuned yn parhau i gynyddu oherwydd cynnydd mewn costau staff a gwariant uniongyrchol ar nwyddau a gwasanaethau

71 Ar y cyfan, mae gwariant cynghorau cymuned wedi cynyddu £13 miliwn (24.5%) i £66.2 miliwn ers 2018-19. Mae gwariant ar gostau staff a thaliadau eraill wedi cynyddu gan £4.68 miliwn (27.9%) a £7.9 miliwn (21.7%) yn y drefn honno ers 2018-19.

72 Yn ystod pandemig COVID-19 gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn gwariant rhwng blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21. Fodd bynnag, dychwelodd gwariant yn gyflym at y lefelau cyn y pandemig yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22.

### Arddangosyn 4: gwariant cynghorau cymuned 2018-19 i 2022-23

Mae cyfanswm gwariant cynghorau cymuned wedi parhau i gynyddu o £53.2 miliwn yn 2018-19 i £66.2 miliwn yn 2022-23. Cynyddodd gwariant ar gostau staff gan £4.68 miliwn i £21.2 miliwn ac fe gynyddodd gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau £7.9 miliwn i £44.1 miliwn yn yr un cyfnod. Gostyngodd cyfanswm y gwariant yn 2020-21, oherwydd pandemig COVID-19.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru


## Creodd pandemig COVID-19 ffawdelw ac o ganlyniad mae gan gynghorau cymuned symiau uwch o arian mewn cronfeydd wrth gefn

73 Gall cynghorau cymuned ddal cronfeydd wrth gefn a balansau am lawer o resymau, megis i ariannu gwariant annisgwyl neu i ‘gynilo’ ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt roi arian o’r neilltu at ddibenion penodol. Er enghraifft, gall enillion o waredu asedau hirdymor fod yn dderbyniadau cyfalaf, sydd wedi’u clustnodi i ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol ac at y diben hwnnw yn unig. Fodd bynnag, nid yw’r gyfraith yn caniatáu i gynghorau gadw cronfeydd wrth gefn heb fod pwrpas i’r gronfa wrth gefn.

74 Mae **Arddangosyn 5** yn dangos bod y symiau sydd gan gynghorau cymuned fel cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu gan £11.5 miliwn (29%) i £50.8 miliwn ers 2018-19.

**Exhibit 5: community reserves 2018-19 to 2022-23**

Mae cronfeydd wrth gefn cynghorau cymuned wedi cynyddu £11.5 miliwn ers 2018-19.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

75 Ym mlwyddyn ariannol 2020-21 gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cronfeydd wrth gefn a ddelir gan gynghorau. Gellir priodoli hyn yn rhannol i raddau helaeth i bandemig COVID-19. Cynyddodd y symiau a ddelir gan gynghorau cymuned o £40.3 miliwn yn 2019-20 i £48.8 miliwn yn 2020-21.

76 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gadarnhau'r praesept un mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol h.y. erbyn 1 Mawrth. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n cadarnhau'r praesept yn gynharach na hyn i gynorthwyo awdurdodau unedol i weinyddu'r dreth gyngor. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, cyhoeddodd cynghorau eu gofynion o ran y praesept cyn i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gychwyn trefniadau ar gyfer y cyfyngiadau symud tuag at ddiwedd mis Mawrth 2020. Golygodd hyn fod y cynghorau wedi parhau i gael eu praesept a gyllidebwyd er iddynt gwtogi'n sylweddol ar eu gweithgareddau ac felly eu gwariant.

77 Fodd bynnag, arhosodd cronfeydd wrth gefn yn uwch na lefelau yn y pandemig yn ystod 2021-22 a 2022-23, sy'n dangos ymhellach bod gan y sector fater systematig o ran sut y mae cynghorau'n pennu ac yn rheoli eu cyllidebau.

## Nid oes gan gynghorau unrhyw bwerau cyfreithiol i ddal cronfeydd wrth gefn refeniw ac eithrio'r rhai ar gyfer gwariant rhesymol o ddydd i ddydd ac at ddibenion penodol a glustnodwyd. Mae cynghorau'n dal symiau cynyddol o gronfeydd wrth gefn heb bwrpas clir

78 Yn fy adroddiadau blaenorol, nodais fy mhryderon bod cynghorau'n aml yn codi arian gan dalwyr y dreth gyngor heb fod â phwrpas clir ar gyfer defnyddio'r arian hwnnw. Rwyf wedi adrodd o'r blaen ar annigonolrwydd trefniadau pennu'r gyllideb gan ormod o gynghorau cymuned. Felly mae'n bwysig i gynghorau ddeall y fframwaith deddfwriaethol sy'n eu galluogi i godi praesept.

79 Mae'r fframwaith hwn wedi'i nodi yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

80 Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i gynghorau gyhoeddi praesept ond mae'n nodi bod yn rhaid i'r praesept nodi'r swm y mae'r cyngor wedi'i gyfrifo fel ei ofyniad cyllidebol yn unol ag Adran 50 o'r Ddeddf.

81 Mae Adran 50 o'r Ddeddf yn rhagnodi y cyfrifir y gofyniad cyllidebol fel swm net yr eitemau canlynol:

- amcangyfrif o'r gwariant y mae'r awdurdod yn amcangyfrif y bydd yn ei ysgwyddo yn y flwyddyn;
- lwfans priodol ar gyfer hapddigwyddiadau mewn perthynas â gwariant;
- amcangyfrif o'r incwm y mae'r cyngor yn disgwyl ei gael yn y flwyddyn;
- y defnydd disgwyliedig o gronfeydd ariannol wrth gefn neu'r cyfraniad disgwyliedig iddynt; a
- sut y bydd cronfeydd ariannol wrth gefn yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ganlynol.

82 Os nad yw cyngor yn cyfrifo ei ofyniad cyllidebol yn unol â'r Ddeddf, yna gallai fod yn gosod praesept anghyfreithlon.

## Mae cynghorau'n rheolaidd yn peidio â chyfrifo eu gofynion cyllidebol yn unol â'r gyfraith ac mewn sawl achos nid ydynt yn ystyried eu cronfeydd wrth gefn

83 Ers 2018-19, rwyf wedi cyhoeddi 273 o dystysgrifau archwilio amodol oherwydd nad yw cynghorau'n pennu cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (1992).

84 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r diffygion a adnabuwyd yn perthyn i dri chategori:

- mae cynghorau'n methu ag ystyried digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn sydd eisoes yn cael eu dal gan y cyngor a'r defnydd ohonynt;
- mae cynghorau'n methu ag ystyried unrhyw incwm y maent yn disgwyl ei gael; ac
- mae cynghorau'n methu â chyfrifo gofyniad cyllidebol.

85 Mae'n siomedig nodi bod cynghorau'n methu â chyfrifo gofyniad cyllidebol, a bod yr arfer gwael o dreiglo'r praesept neu ei gadw'r un fath â'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi dod yn gyffredin.

86 Ers 2018-19, bu tuedd barhaus gan gynghorau i godi praesept sydd yn ôl pob golwg yn fwy na'u hanghenion. Er imi sylwi ar gynnydd yn nifer y cynghorau a ostyngodd eu praesept ar gyfer 2021-22 o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19, fe wnaeth cyfran sylweddol o gynghorau barhau i gynyddu eu praesept a hwythau ar yr un pryd yn peidio â defnyddio'r praesept i ddarparu gwasanaethau.

**Arddangosyn 6: praeseptau cynghorau cymuned**

Ar gyfartaledd, cynyddodd dros 400 o gynghorau eu praesept o flwyddyn i flwyddyn, tra bo dros 150 o'r rhain wedi cynyddu eu praesept er bod balansau eu cronfeydd wrth gefn yn fwy na'u praesept.

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorau a gynyddodd eu cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn | 441 | 533 | 432 | 313 | 353 |
| Cynghorau a gynyddodd eu praesept am y flwyddyn | 476 | 488 | 319 | 430 | 416 |
| Cynghorau a gynyddodd eu praesept er bod ganddynt warged yn y flwyddyn flaenorol | 246 | 281 | 210 | 249 | 189 |
| Cynghorau a gynyddodd eu praesept er eu bod yn dal cronfeydd wrth gefn a oedd yn fwy na'r praesept blynyddol | 195 | 198 | 128 | 192 | 175 |
| Cynghorau a gynhaliodd lefel eu praesept | 203 | 203 | 293 | 232 | 231 |
| Cynghorau a leihaodd eu praesept am y flwyddyn | 63 | 51 | 130 | 80 | 88 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

87 Er ei bod yn bwysig sicrhau bod gan gynghorau ddigon o incwm i ddarparu gwasanaethau, mae hefyd yn bwysig sicrhau nad ydynt yn codi mwy o incwm drwy'r dreth gyngor nag sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau'r cyngor a gweinyddu eu materion, gan arwain at lefelau cynyddol o gronfeydd wrth gefn. Cododd 26% o gynghorau praesept uwch yn 2023-24 er nad oeddent yn gwario'r holl arian a godwyd gan praesept 2022-23.

88 Mae cronfeydd wrth gefn wedi parhau i gynyddu ac mae angen cynyddol i gynghorau unigol adolygu lefel balansau eu cronfeydd wrth gefn yn feirniadol. Mae hyn yn arbennig o debygol o fod yn wir yn y cynghorau hynny:

- sydd â balansau cronfeydd wrth gefn agoriadol sy'n fwy na'u praesept;
- sy'n codi neu'n cynnal eu praesept yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn; ac
- sy'n realeiddio gwarged o incwm dros wariant yn barhaus.

## Mae nifer y cynghorau sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer mabwysiadu dyletswyddau penodol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i gynyddu, ac mae 69 o gynghorau bellach yn mynd heibio'r trothwy o ran bod ag incwm neu wariant blynyddol sy'n fwy na £200,000 am dair blynedd yn olynol

89 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sydd ag incwm neu wariant blynyddol o fwy na £200,000 am dair blynedd neu fwy yn olynol fabwysiadu dyletswyddau penodol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol.

90 Yn 2022-23, roedd gan 83 o gynghorau incwm neu wariant o fwy na £200,000. Mae'r nifer hwn yn cynyddu'n gyson bob blwyddyn.

91 Mae gan 69[5] o gynghorau incwm neu wariant sy'n fwy na £200,000 ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf, a rhaid iddynt bellach gydymffurfio â gofynion y Ddeddf.

92 Mae gan y cynghorau hyn ddyletswydd benodol ond cyfyngedig i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol. Rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion lleol.

93 Mae angen i'r cynghorau hynny a aeth y tu hwnt i'r trothwy o £200,000 yn 2022-23 nad ydynt wedi gwneud hynny am dair blynedd yn olynol hefyd fod yn ymwybodol o gyflawni'r dyletswyddau hyn a chynllunio yn unol â hynny. Mae'n debygol bod angen i lawer o gynghorau tref a chymuned gynyddu eu hymwybyddiaeth o ddyletswyddau yn y Ddeddf sy'n berthnasol iddynt hwy.

5 Mae'r ffigwr yn seiliedig ar y cynghorau hynny sydd wedi cyflwyno cyfrifon. Ceir nifer o gynghorau sydd heb gyflwyno cyfrifon ond y gallai fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Mae nifer yr archwiliadau amodol yn dal i fod yn rhy uchel gyda llawer o gynghorau'n gwneud camgymeriadau cyffredin, hawdd i'w hosgoi

## Mae archwilwyr yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' pan fydd cynghorau'n methu â chydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol neu pan fo archwilwyr yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y ffurflen flynyddol wedi'i chamddatgan

94 Mae fy null archwilio ar gyfer cynghorau cymuned wedi'i fwriadu i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

95 Mae cynghorau cymuned yn paratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys:

- y datganiadau cyfrifyddu blynyddol wedi'u llunio hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn; a
- datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi haeriadau lle mae'r Cyngor yn cadarnhau'r trefniadau sydd ganddo ar waith i reoli ei sefyllfa ariannol. Caiff manylion yr haeriadau a wneir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu nodi yn **Atodiad 2**.

96 Mae archwilwyr yn adolygu'r datganiadau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen flynyddol a'r haeriadau a wneir yn y datganiad llywodraethu blynyddol, i ddod i gasgliad pa un a oes tystiolaeth bod y datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi'n briodol ai peidio, pa un a oes gan y cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, a pha un a yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen flynyddol yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol a threfniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor ai peidio.

97 Mae archwilwyr yn mesur trefniadau'r cyngor yn erbyn ei gyfrifoldebau statudol ac yn cyhoeddi barnau 'amodol' pan fyddant yn adnabod achosion o ddiffyg cydymffurfio. Adroddir ar y rhain fel eithriadau yn y farn archwilio. Fodd bynnag, gellir osgoi pob amodiad archwilio os oes gan gynghorau drefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol.

98 Bydd archwilwyr hefyd yn amodi'r farn archwilio pan fo'r wybodaeth yn y cyfrifon a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol yn anghyson â'r dystiolaeth a ddarparwyd i'w harchwilio.

99 Rwy'n cyhoeddi barn archwilio amodol pan na ddaw unrhyw faterion i'm sylw yn ystod yr archwiliad sy'n awgrymu bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio â gofynion statudol neu reoleiddiol. Gall fy archwiliad hefyd adnabod materion eraill sydd, er nad ydynt yn dynodi methiant i gydymffurfio â gofyniad statudol neu reoleiddiol, yn rhai y mae angen eu dwyn i sylw'r cyngor.

## Gwnaeth 41% o'r holl archwiliadau a gwblhawyd arwain at dystysgrif archwilio amodol

100 O ran y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2024, rwyf wedi cyhoeddi 1,266 o farnau archwilio amodol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 i 2023-24.

101 Mae nifer y barnau amodol yn debygol o godi wrth i waith archwilio ar y cynghorau sydd ar ôl gael ei gwblhau.

102 Rwyf wedi nodi fel rhan o'r trefniadau archwilio newydd bod yr archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau yn adnabod mwy o faterion amodi. Arweiniodd 66% o'r archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau a gwblhawyd at dystysgrif archwilio amodol[6].

103 Mae'r gyfran uwch o dystysgrifau archwilio amodol yn ategu'r rhesymeg dros yr angen am archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau. Mae **paragraffau 134** i **161** o'r adroddiad hwn yn archwilio'r materion a nodwyd fel rhan o'r archwiliadau sy'n seiliedig ar drafodion.


104 Mae archwilwyr hefyd yn adrodd ar faterion eraill a nodwyd yn ystod yr archwiliad nad ydynt yn effeithio ar y farn archwilio ond y mae gofyn i'r corff a archwilir roi sylw iddynt.

105 Mae **Arddangosyn 7** yn crynhoi nifer yr archwiliadau wedi'u cwblhau a gafodd farn archwilio amodol.

6 Mae 232 o archwiliadau llawn wedi'u cwblhau ers i'r trefniadau archwilio newydd gael eu rhoi ar waith. Mae 154 o'r rhain wedi arwain at dystysgrif archwilio amodol.

**Arddangosyn 7: barnau archwilio amodol**

Mae rhwng 34% a 51% o farnau archwilio yn rhai amodol.




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Dylai llawer o'r materion cyffredin sy'n arwain at farn archwilio amodol fod yn syml ac yn hawdd i'w datrys

106 Er bod y gofynion cyfrifyddu ar gyfer cynghorau cymuned yn gymharol syml, cyhoeddodd archwilwyr farn archwilio amodol am gamgymeriadau sylweddol yn y cyfrifon. Fe wnaeth archwilwyr hefyd adnabod mân wallau ar gyfer nifer fawr o gynghorau.

107 Mae cyfrifon cynghorau cymuned yn dilyn strwythur syml. Y math mwyaf syml o gyfrifyddu, sef cyfrifyddu derbyniadau a thaliadau, a wneir mewn dros 650 o'r 740 o gyrff a gwmpesir gan yr adroddiad hwn. Ar gyfer cyfrifyddu derbyniadau a thaliadau mae'n ofynnol i'r corff gofnodi trafodiadau ac adrodd arnynt wrth i arian gael ei dderbyn neu ei wario. Mae'r trafodiadau yn cael eu dosbarthu i un o bum categori. Y cyfrifon blynyddol yw cyfansymiau'r categorïau hyn.

108 Yr haeriad cyntaf a wneir gan gynghorau yn y datganiad llywodraethu blynyddol yw eu bod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaith rheoli ariannol effeithiol ac i baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.

109 Adnabu archwilwyr y materion cyffredin canlynol ar draws y pedair blynedd ariannol:

- nid oedd y cyngor wedi cwblhau'r cyfrifon yn llawn, e.e. nid oedd cynghorau wedi cwblhau'r adran datganiad o falansau o'r ffurflen flynyddol;
- nid yw'r cofnodion yn y cyfrifon blynyddol wedi'u hategu'n llawn gan drywydd archwilio digonol i gysoni'r cyfrifon a'r llyfr arian;
- mae cofnodion cyfrifyddu unigol wedi cael eu dosbarthu'n anghywir neu wedi cael eu cofnodi'n anghywir;
- nid yw'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio'n rhifyddol gywir; ac
- mae cynghorau wedi rhoi cyfrif yn anghywir am daliadau â sieciau a oedd heb eu cyflwyno.

## Ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 2019-20 ymlaen, rwyf wedi amodi 281 set o ddatganiadau cyfrifyddu lle mae wedi dod i'm sylw na chafodd y datganiadau cyfrifyddu eu paratoi'n briodol, neu lle nad wyf wedi gallu dod i casgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi'n briodol ai peidio

110 Mae **Arddangosyn 8** isod yn dangos y bu tuedd tuag i fyny o ran cynghorau sydd wedi cael tystysgrif archwilio amodol oherwydd materion gyda'r datganiad cyfrifyddu.

111 Adnabu archwilwyr y materion cyffredin canlynol ar draws y pedair blynedd ariannol a arweiniodd at dystysgrif archwilio amodol:

- nid oedd y cyngor wedi cwblhau'r cyfrifon yn llawn, e.e. nid oedd cynghorau wedi cwblhau'r adran datganiad o falansau o'r ffurflen flynyddol;
- nid yw'r cofnodion yn y cyfrifon blynyddol wedi'u hategu'n llawn gan drywydd archwilio digonol at gofnodion cyfrifyddu sylfaenol;
- mae cynghorau wedi methu â rhoi esboniad digonol am amrywiannau sylweddol rhwng y ddwy flynedd gymharol; ac
- mae cofnodion cyfrifyddu unigol wedi cael eu dosbarthu'n anghywir neu wedi cael eu cofnodi'n anghywir.

**Arddangosyn 8 – nifer y datganiadau cyfrifyddu na chawsant eu paratoi'n briodol**

Mae hyd at draean o'r cynghorau'n darparu cyfrifon sy'n rhifyddol anghywir i'w harchwilio.

| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cynghorau a gafodd adroddiad archwilio amodol ar gyfer materion yn y datganiad cyfrifyddu | 57 | 69 | 127 | 89 | 83 |
| Nifer y cynghorau â mân faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon | 69 | 60 | 49 | 59 | 91 |
| Nifer y cynghorau a gyflwynodd gyfrifon a oedd yn rhifyddol anghywir | –[7] | 204 | 213 | 235 | 220 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Rwyf hefyd wedi hysbysu cynghorau ynghylch mân faterion fel gwallau rhifyddol a theipograffyddol 328 o weithiau ers 2018-19. Dylai'r mân faterion hyn fod yn syml i'w cywiro pe bai cynghorau'n cymryd amser i adolygu'r ffurflen flynyddol cyn ei chyflwyno

112 Mae **Arddangosyn 8** yn dangos bod nifer gyson o gynghorau yr wyf wedi eu hysbysu ynghylch mân faterion. Fodd bynnag, mae'n destun pryder nodi bod dros un ymhob tair[8] set o gyfrifon a gyflwynir i'w harchwilio'n rhifyddol anghywir.

113 Nododd archwilwyr y materion cyffredin canlynol ar draws y pedair blynedd ariannol:

- nid oedd y cyngor wedi cwblhau'r cyfrifon yn llawn, e.e. nid oedd cynghorau wedi cwblhau'r adran datganiad o falansau o'r ffurflen flynyddol;
- rhoddodd cynghorau gyfrif yn anghywir am daliadau â sieciau a oedd heb eu cyflwyno;
- nid oedd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio'n rhifyddol gywir oherwydd gwallau talgrynnu; ac
- roedd y cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio'n cynnwys gwallau teipograffyddol fel gwall trosi.

7 Oherwydd bod rhai o archwiliadau 2019-20 wedi cael eu cwblhau gan ddarparwyr allanol, nid oes gennym ddata llawn ar wallau rhifyddol ar gyfer 2019-20.

8 Roedd 249 o'r 630 (39.5%) o gyfrifon a gyflwynwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 yn anghywir.

114 Ar gyfer 2018-19, adroddais fod archwilwyr wedi amodi cyfrifon 11 cyngor yn 2018-19 ac wedi codi mân faterion gyda 70 o gynghorau. Ers hynny, mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol gyda brig o 127 o gyfrifon wedi'u hamodi yn 2021-22, sy'n gyson â gweithredu archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau.

115 Mae'r cynnydd sylweddol mewn materion a adnabuwyd gan archwilwyr yn siomedig i'w nodi. Mae'r materion hyn yn hawdd i'w hadnabod a'u datrys gan mwyaf. Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn rhoi arweiniad ynghylch sut i baratoi'r datganiadau cyfrifyddu'n briodol.

## Bob blwyddyn ers 2018-19 cafodd dros 120 o gynghorau a gafodd farn archwilio amodol eu hamodi oherwydd mwy nag un mater

116 Dylai amodiadau archwilio fod yn ddigwyddiad prin. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddwn yn disgwyl i gynghorau gael barn archwilio sy'n amodol ar ddwy sail neu fwy.

117 Yn fy adroddiad ar gylch archwilio 2018-19, nodais fod 101 o gynghorau yn 2018-19 (hyd at 30 Tachwedd 2019) wedi cael barn archwilio a oedd yn amodol ar ddwy sail neu fwy: cafodd 42 ohonynt eu hamodi oherwydd tri neu fwy o faterion. Parhaodd y duedd hon yn 2019-20 a 2020-21. Ar ben hynny, wrth i ni gynnal archwiliadau manylach fel rhan o'r cylch archwilio newydd, rydym yn adnabod nifer fwy o faterion mewn cynghorau unigol.

### Arddangosyn 9 – nifer y tystysgrifau archwilio amodol wedi'u dadansoddi yn ôl nifer y materion amodi yr adroddwyd arnynt[9]

Mae dros 100 o gynghorau bob blwyddyn yn cael adroddiad archwilio amodol sy'n cynnwys dau neu fwy o seiliau ar gyfer amodi.

| Nifer y materion amodi a gynhwyswyd mewn adroddiad i gynghorau sengl | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|
| Un | 153 | 119 | 103 | 109 |
| Dwy | 73 | 118 | 67 | 79 |
| Tair | 34 | 27 | 48 | 56 |
| Pedair neu fwy | 14 | 19 | 45 | 41 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

118 Nid yw'r cynghorau hynny sy'n cael barn archwilio amodol ar gyfer sawl mater yn cyrraedd y safonau sylfaenol o ran rheolaeth ariannol ac atebolrwydd y mae gan y cyhoedd hawdd i'w disgwyl. Mae angen i'r cynghorau hyn adolygu eu trefniadau mewnol a chymryd camau brys i fynd i'r afael â'r gwendidau a adnabuwyd gan yr archwilwyr.

119 Mae cynghorau'n gwneud haeriad i nodi pa un a ydynt wedi cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau archwilio mewnol ac allanol blaenorol yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Mae'n debygol y bydd methu â chymryd camau priodol yn arwain at adroddiad archwilio amodol.

120 Ceir nifer o gynghorau nad ydynt yn cymryd camau priodol i ymateb i faterion a godwyd gan archwilwyr. Ers 2018-19, mae dros 100 o gynghorau wedi cael barn amodol am dair blynedd yn olynol[10].

9 Ar hyn o bryd nid oes digon o ddata ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 i wneud y dadansoddiad.

10 Mae 103 o gynghorau wedi cael tystysgrif archwilio amodol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21 a 2021-22. Rydym wedi cwblhau archwiliadau 88 o'r cynghorau hyn ar gyfer 2022-23, y cafodd 44 ohonynt dystysgrif archwilio amodol. Rydym wedi cwblhau archwiliadau 53 o'r cynghorau hyn ar gyfer 2023-24, y cafodd 24 ohonynt dystysgrif archwilio amodol.

## Un o'r materion mwyaf cyffredin a adnabuwyd gan archwilwyr a oedd yn arwain at farn amodol oedd bod cynghorau'n methu â bod yn dryloyw ac atebol trwy beidio â chyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol

121 Y trydydd haeriad a wneir gan gynghorau yn y datganiad llywodraethu blynyddol yw eu bod wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd iddynt hwy eu hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau a rheoliadau.

122 Mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i drefnu bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig o dan Adran 55 o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (Deddf 2013) (a enwyd yn flaenorol yn Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013). Mae hyn yn ychwanegol at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) a Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) ynghylch hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cyngor, a chofrestrau o fuddiannau'r aelodau.

123 Mae Deddf 2013 hefyd yn nodi'r gofyniad i gynghorau cymuned roi sylw dyladwy i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru megis y Cod Ymarfer ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol.

124 Ers 2018-19, mae 184 o dystysgrifau archwilio amodol wedi cael eu cyhoeddi oherwydd nad yw cynghorau'n cyhoeddi gwybodaeth sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

## Mae mabwysiadu ac effeithiolrwydd gwefannau cynghorau'n amrywio'n sylweddol ledled Cymru, gyda llawer ohonynt yn peidio â chyrraedd y safonau angenrheidiol, yn enwedig y rhai a gynhelir gan Gyngor Sir Penfro

125 Mae cynghorau ledled Cymru wedi mabwysiadu amrywiaeth o ffyrdd o gyhoeddi gwybodaeth yn electronig. Mewn llawer o achosion, mae cynghorau wedi datblygu gwefan bwrpasol. Mae cynghorau eraill wedi defnyddio gwasanaethau datblygu gwefannau sydd ar gael yn rhwydd e.e. 'WordPress' i ddatblygu eu gwefannau. Yn Sir Benfro, mae'r Cyngor Sir wedi darparu platfform i gynghorau Sir Benfro ei ddefnyddio.

126 Mae pob cyngor yn gyfrifol am gyhoeddi ei wybodaeth a rhaid iddo sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol. Ni waeth sut y sefydlodd unrhyw gyngor ei wefan, mae'n bwysig bod y wefan yn cael ei chynnal a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae hefyd yn hanfodol bod y wefan wedi'i strwythuro'n dda fel bod yr wybodaeth a gyhoeddir ar gael yn rhwydd i ddefnyddwyr. Ni ddylid ystyried bod gwefan yn faich gweinyddol ond yn hytrach yn ffordd o hyrwyddo ymgysylltiad â'r cyhoedd.

127 Mae fy archwilwyr yn defnyddio gwefannau cynghorau i gael gafael ar wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad. Fodd bynnag, adnabu fy ngwaith nad yw deg cyngor yn gweithredu gwefan, ac nid oeddwn yn gallu adnabod unrhyw bresenoldeb ar-lein.

128 Mae fy archwilwyr wedi dod o hyd i faterion lluosog sy'n ymwneud â gwefannau cynghorau sy'n gyffredin ledled Cymru. Enghreifftiau o faterion a adnabuwyd yw:

- mae lefel ymgysylltu ac ymarferoldeb y wefan a'r defnydd ohoni'n amrywio rhwng cynghorau. Er enghraifft, nid yw rhai cynghorau'n diweddaru cofnodion mewn modd amserol.
- nid yw gwefannau'n hygyrch. Gall hyn fod oherwydd bod y cyngor wedi cyfyngu mynediad i ddeiliaid cyfrineiriau neu oherwydd nad yw wedi bod yn cynnal y wefan.
- nid yw manylion cyswllt clercod ac aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd neu nid ydynt yn cael eu darparu.
- ceir gwybodaeth anghyflawn am aelodau.
- nid oes fawr ddim dogfennau sy'n ymwneud â busnes y cyngor, megis gwybodaeth ariannol, polisïau a dogfennau gweithdrefnau, os o gwbl.

129 I rai cynghorau, mae strwythur y wefan yn golygu ei bod yn anodd iawn i ddefnyddwyr gael gafael ar wybodaeth. Yn fy adroddiad er budd y cyhoedd ar Gyngor Cymuned Harlech, rwy'n nodi strwythur gwael y wefan a'r ffaith bod dogfennau ar gyfer dau gyngor yn cael eu cyhoeddi ar yr un wefan. Mae strwythur y wefan yn wael - mae dogfennau'r ddau gyngor yn cael eu cymysgu â'i gilydd ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol nac yn gronolegol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i ddogfennau unigol.

## Mae tri chwarter y cynghorau cymuned yn Sir Benfro'n defnyddio'r wefan a ddatblygwyd gan y Cyngor Sir

130 Mae'r wefan[11] a letyir ac a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Penfro'n gweithredu'n bennaf fel tudalen drosolwg a storfa ddogfennau ar gyfer pob cyngor tref a chymuned yn Sir Benfro. Mae'r wefan hon yn enghraifft wych o'r materion cyffredin a nodir uchod. Yn fy marn i, ceir diffygion sylweddol gyda strwythur y wefan hon:

- mae dogfennau sy'n cael eu lanlwytho i'r wefan yn cael eu harddangos fel un rhestr hir ac nid ydynt wedi'u categoreiddio. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â gwefannau nad ydynt yn cael eu lletya gan yr awdurdod unedol lle sefydlir tudalennau ar wahân i storio dogfennau gwahanol, er enghraifft, tudalen a neilltuwyd i agendâu a chofnodion.
- nid oes unrhyw swyddogaethau chwilio sy'n galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i ddogfennau penodol. Yn hytrach, rhaid i ddefnyddwyr sgrolio trwy'r holl ddogfennau a gyhoeddir ar dudalen cyngor unigol.
- mae dogfennau'n cael eu harddangos yn y drefn y cawsant eu lanlwytho i'r safle. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i ddogfennau unigol.
- nid yw hyperddolenni i gynghorau eraill sy'n lletya eu gwefan yn annibynnol yn gweithio.
- ceir is-safleoedd dyblyg ar gyfer cynghorau. Er enghraifft, Cyngor Cymuned Eglwyswrw[12].

131 Yn fy marn i, mae gan wefan pembstcc.co.uk ddiffygion mor sylweddol fel nad yw'n addas ar gyfer y diben.

132 Fe'm hysbysir y bydd y wefan ar gau ddiwedd mis Mawrth 2025. Felly mae'n bwysig i bob cyngor yn Sir Benfro wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer gwefannau yn y dyfodol. Waeth beth yw'r penderfyniadau a wneir ynghylch safle Sir Benfro, cynghorau tref a chymuned unigol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â deddfwriaeth.

11 Cynghorau Tref a Chymuned Sir Benfro (pembstcc.co.uk)
12 Ail wefan Cyngor Cymuned Eglwyswrw.

## Mae trefniadau archwilio newydd yn adnabod materion sylweddol sy'n gyffredin ar draws y sector

### Mae'r dogfennau a ddarperir gan gynghorau yn aml yn annigonol, yn anghyflawn ac ymhell islaw fy nisgwyliadau

133 Mae'r Canllaw i Ymarferwyr – Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr, a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn nodi arfer cyfrifyddu priodol ar gyfer y sector ac yn cynnwys canllawiau ynghylch sut i gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol a digonol. Fodd bynnag, thema gyffredin a adnabuwyd mewn archwiliadau yw nad yw llawer o gynghorau'n cadw cofnodion cyfrifyddu digonol. Er enghraifft, yn 2021-22 yn unig, codais y materion ynghylch digonolrwydd cofnodion cyfrifyddu mewn 119 o gynghorau.

### Mae cofnodion cyfrifyddu annigonol yn ei gwneud hi'n anodd cysoni'r datganiadau cyfrifyddu â chofnodion sylfaenol ac ategol

134 Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn cynnwys llyfr arian enghreifftiol. Mae hyn yn darparu model y gall cynghorau ei fabwysiadu i gofnodi trafodiadau. Er y bydd gofynion y llyfr arian yn amrywio o gyngor i gyngor, yr wybodaeth a gynhwysir yn yr enghraifft yw'r lleiafswm y byddwn yn disgwyl ei weld ar draws pob cyngor.

135 Nododd fy archwilwyr ei bod hi'n aml yn anodd cysoni llyfrau arian a gwblhawyd â llaw ac ar ffurf taenlen â'r datganiadau cyfrifyddu a gyflwynwyd am y rhesymau canlynol:

- mae cyfansymiau'r llyfrau arian yn aml yn rhifyddol anghywir;
- mae llyfrau arian yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig sy'n ei gwneud hi'n anodd adnabod yr hyn y mae trafodiadau unigol yn ymwneud ag ef;
- nid yw cofnodion mewn llyfrau arian a gwblhawyd â llaw ac ar ffurf taenlen yn gyson â'r cyfrifon blynyddol;
- mae cynghorau'n aml yn camddosbarthu gwariant e.e. cynnwys costau staff o fewn cyfanswm taliadau eraill; ac
- mae TAW wedi'i chofnodi'n anghywir neu heb ei chofnodi.

136 Os yw cysoni'r datganiadau cyfrifyddu â llyfr arian neu gyfriflyfr yn anodd, yna mae'n dod yn fwyfwy tebygol y bydd cysoni trafodiadau ar y llyfr arian parod â chofnodion sylfaenol ac ategol yn anodd hefyd.

## Nid yw pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol yn gwarantu nac yn sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu'n ddigonol

137 Gellir defnyddio pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol fel Rialtas, Xero a Scribe fel offeryn effeithiol i helpu cynghorau i gadw cofnodion cyfrifyddu, paratoi datganiadau cyfrifon a darparu gwybodaeth i'w harchwilio.

138 Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw gydberthynas uniongyrchol rhwng digonolrwydd cofnodion cyfrifyddu ar gyfer y cynghorau hynny sydd wedi defnyddio pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol a'r rhai nad ydynt wedi eu defnyddio.

139 Nododd fy archwilwyr fod yr un materion yn codi wrth ddefnyddio pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol ag sy'n codi wrth ddefnyddio llyfrau arian a gwblheir â llaw ac ar ffurf taenlen. Er enghraifft, gall data a gofnodwyd fod yn anghywir. Nid yw'r allbwn data ond cystal â'r data a fewnbynnir. Yn ogystal â hyn, nododd fy archwilwyr y materion canlynol yn benodol ar gyfer pecynnau cyfrifyddu cyfrifiadurol:

- nid yw cynghorau'n deall y pecynnau meddalwedd yn llawn, fel sut i gywiro gwallau neu fewnbynnu croniadau.
- mae cynghorau'n darparu gwybodaeth anghywir neu anghyflawn o'r pecynnau meddalwedd i'w harchwilio, gan ei gwneud hi'n anodd cysoni â'r cyfrifon blynyddol. Er enghraifft, nid yw cynghorau'n darparu rhestrau credydwyr neu ddyledwyr ar wahân.
- mewn rhai achosion, mae cynghorau'n gwneud addasiadau i'r data a gynhyrchir gan y meddalwedd cyfrifyddu ond heb egluro ar gyfer beth y mae'r addasiadau hyn neu sut y gellir cysoni'r datganiad cyfrifyddu â data'r meddalwedd cyfrifyddu.
- roedd ar y cynghorau angen i ddarparwr y meddalwedd helpu i gau'r cyfrifon a oedd yn dwyn cost ychwanegol.
- mae cynghorau'n camddehongli sut y mae'r pecyn cyfrifyddu'n rhoi cyfrif am TAW[13] a threthi eraill.

13 Mae'n ofynnol i gynghorau sy'n paratoi cyfrifon ar sail incwm a gwariant adrodd am werth net trafodiadau ond yn aml maent wedi defnyddio'r gwerth gros wrth baratoi datganiadau cyfrifyddu.

## Mae cynghorau'n dal i fethu â chydymffurfio â rheoliadau a'r rhwymedigaethau a osodir arnynt fel cyflogwr

140 Mae un maes cyffredin ar gyfer gwella a ddylai fod yn hawdd i'w gywiro'n ymwneud â chyflogi staff. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, canolbwyntiodd fy rhaglen archwilio ar gyflogi staff fel thema lywodraethu. Ystyriais a yw cynghorau'n cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol i ddarparu contractau cyflogaeth neu fanylion eu telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr ac a ydynt yn gweithredu Talu Wrth Ennill (PAYE) ai peidio.

141 Archwiliais y maes hwn yn flaenorol yn 2016-17, pan adroddais nad oedd gan 54 o gynghorau drefniadau ar waith i reoli'r broses o drethu cyflog swyddogion.

142 Mae felly'n siomedig nodi fy mod, ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, wedi cyhoeddi 61 o dystysgrifau archwilio amodol am fethu â darparu contract cyflogaeth ysgrifenedig a 23 o dystysgrifau archwilio amodol am beidio â gweithredu TWE.

143 Mae'r mater hwn yn parhau mewn archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau lle mae archwilwyr yn olrhain trafodiadau costau staff ddogfennau gwreiddiol fel slipiau cyflog a chontractau cyflogaeth.

144 Yn 2021-22 a 2022-23 (hyd yma) rwyf wedi cyhoeddi 21 o dystysgrifau archwilio amodol ar y sail nad yw cynghorau'n gweithredu TWE.

## Mae costau staff mewn datganiadau cyfrifyddu'n cael eu camddatgan yn fynych neu nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol i ategu'r ffigwr yr adroddwyd arno

145 Mae fy archwilwyr hefyd wedi nodi y bu'n anodd cadarnhau cywirdeb costau staff am y rhesymau canlynol:

- nid yw contractau cyflogaeth yn bodoli neu nid ydynt wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn telerau neu amodau e.e. cynnwys unrhyw lwfansau cymeradwy neu drefniadau pensiwn;
- nid yw contractau cyflogaeth wedi cael eu diwygio o ddogfen dempled i adlewyrchu trefniadau'r cyngor;
- ni chadwyd tystiolaeth o ddyfarniadau a chodiadau cyflog;
- ni chadwyd slipiau cyflog na chofnodion TWE; ac
- mae cynghorau wedi cynnwys treuliau ac ad-daliadau eraill o fewn costau staff.

146 Rhaid i'r ffigwr staff yr adroddir arno gynnwys yr holl daliadau a ysgwyddir yn uniongyrchol wrth gyflogi staff. Mae hyn yn cynnwys cyflogau gros, buddion trethadwy a chostau cyflogwr cysylltiedig fel cyfraniadau yswiriant gwladol.

## Nid yw cynghorau'n gweithredu fel stiwardiaid priodol ar gyfer asedau cyhoeddus trwy beidio â chadw cofnodion priodol ynghylch asedau sefydlog

147 Mae'r gwerth yr adroddwyd arno gan gynghorau ar gyfer asedau sefydlog wedi codi o £208 miliwn yn 2018-19 i £247 miliwn yn 2022-23, gan adlewyrchu newidiadau yn y sector megis trosglwyddo asedau a gwasanaethau o brif gyrff i gynghorau cymuned.

148 Fodd bynnag, mae'r elfen o gadw cofnodion sylfaenol sy'n ymwneud â chynnal cofrestr asedau'n parhau i fod yn broblem. Ers 2018-19, rwyf wedi cyhoeddi 57 o dystysgrifau archwilio amodol ar gyfer asedau sefydlog a gamddatganwyd yn berthnasol ac wedi hysbysu cynghorau 36 gwaith am fân faterion ynghylch y ffigwr asedau sefydlog yr adroddwyd arno[14].

149 Mae gwariant cyfalaf gan gynghorau cymuned yn ddarostyngedig i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003. Mae arferion cadw cofnodion gwael mewn perthynas ag asedau sefydlog yn creu risg nad yw cynghorau'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Yn ogystal â'r risg o ran cydymffurfio, mae arferion cadw cofnodion gwael yn gadael cynghorau'n agored i'r risg o golled ariannol o ganlyniad i reoli asedau'n amhriodol a chamddefnyddio asedau.

150 Gall cynghorau leihau'r risgiau hyn yn fawr trwy sicrhau bod ganddynt gofrestr asedau gyflawn a chywir. Mae'r Canllaw i Ymarferwyr gan Un Llais Cymru yn rhoi arweiniad ar leiafswm yr wybodaeth y dylai cofrestr asedau ei chynnwys.

14 Nid oes rhaid i gyfrifon cynghorau tref a chymuned gynnwys cyfrifyddu cyfalaf ac nid ydynt yn codi am ddibrisiant nac addasiadau cyfalaf eraill. Rhaid i gynghorau tref a chymuned gofnodi asedau sefydlog am yr un faint â'r gost i ddechrau, ond efallai y byddant yn dymuno mynd ati wedyn i ail-fesur prisiad yr asedau y maent yn ystyried ei bod yn briodol ac yn berthnasol gwneud hynny ar eu cyfer.

## Mae sut y mae cynghorau'n gwneud ac yn cymeradwyo penderfyniadau'n cael ei ddogfennu'n wael, sydd wedi ei gwneud hi'n anodd cael tystiolaeth i benderfynu a oes gan y cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

151 Yr ail haeriad a wneir gan gynghorau yn y datganiad llywodraethu blynyddol yw eu bod wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol. Un o elfennau allweddol rheolaeth fewnol yw y dylai cynghorau fod â threfniadau priodol ar gyfer gwneud a chymeradwyo taliadau.

152 Ers 2018-19, rwyf wedi cyhoeddi 82 o dystysgrifau archwilio amodol ar y sail nad oes gan gynghorau reolaeth fewnol effeithiol o ran gwneud a chymeradwyo taliadau.

153 O 2021-22 ymlaen, rwyf wedi archwilio cydymffurfiaeth cynghorau â'r system o reolaethau dros daliadau a ddogfennwyd ganddynt hwy eu hunain. Yn 2021-22, cyhoeddais farn amodol mewn 51 o gynghorau lle nad oedd rheolaethau digonol neu lle na ddilynodd y cyngor y trefniadau a ddogfennwyd ganddo.

154 Mae'n destun pryder nodi nad oes mecanweithiau cymeradwyo sylfaenol ar waith mewn llawer o gynghorau. Roedd y meysydd sy'n peri pryder a adnabu gan fy archwilwyr mewn perthynas â gwneud a chymeradwyo taliadau fel a ganlyn:

- nid yw taliadau electronig yn darparu ar gyfer gwahanu dyletswyddau'n ddigonol;
- roedd cymeradwyo taliadau yn ôl-weithredol yn dod yn arfer cyffredin; ac
- mae'r modd y cofnodir cymeradwyaeth i daliadau o fewn cofnodion yn amwys.

155 Gall effaith methiant i sefydlu a gweithredu rheolaethau mewnol priodol fod yn ddifrifol ac arwain at golledion sylweddol i bwrs y wlad. Mae methiannau mewn rheolaeth fewnol yn fater cyffredin sy'n cael sylw yn fy adroddiadau er budd y cyhoedd.

## Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gynghorau sefydlu rheolau sefydlog ar gyfer cyflenwi nwyddau, deunyddiau neu i gyflawni gwaith. Fodd bynnag, mae llawer o Gynghorau'n methu â sefydlu rheolau sefydlog priodol neu eu diystyru'n llwyr

156 Un o elfennau allweddol rheolaeth fewnol yw bod gan gynghorau cymuned reolau sy'n rheoli'r ffordd y byddant yn cynnal busnes. Cyfeirir at y rheolau hyn yn aml fel:

- rheolau sefydlog sy'n rheoli'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu, e.e. sut y dylid cynnal cyfarfodydd y cyngor, sefydlu a gweithredu pwyllgorau ac is-bwyllgorau, mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd, gofynion o ran cod ymddygiad, rheolau sy'n ymwneud â buddiannau'r aelodau a.y.b.; a
- rheoliadau ariannol ar gyfer y ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli ei faterion ariannol, e.e. trefniadau dirprwyo ariannol, bancio derbyniadau, trefniadau cyfrifyddu ac archwilio, y gyflogres a.y.b.

157 Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol yn cynnwys rheolau i'r cyngor wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac felly'n helpu i sicrhau bod y cyngor yn sicrhau gwerth am arian.

158 Mae **Arddangosyn 10** yn nodi nifer y tystysgrifau archwilio yr wyf wedi'u cyhoeddi lle'r wyf wedi nodi nad oes gan gyngor drefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian. Mae hyn wedi'i rannu yn ôl y cynghorau hynny nad ydynt wedi dilyn eu rheolau eu hunain a'r rhai nad ydynt wedi mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol e.e. trwy beidio ag adolygu'r trothwyon ar gyfer defnyddio proses gystadleuol wrth gaffael.

**Arddangosyn 10 – nifer y tystysgrifau archwilio amodol a gyhoeddwyd oherwydd materion a oedd yn ymwneud â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol**

Cynyddodd nifer y cynghorau a gafodd farn archwilio amodol yn sylweddol yn 2021-22

| Nifer y materion amodi sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad i gynghorau sengl | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynghorau a gafodd adroddiad archwilio amodol am beidio â dilyn eu rheolau eu hunain | 5 | 4 | 31 | 22 | 3 |
| Cynghorau a gafodd dystysgrif archwilio amodol am fod â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol annigonol | 1 | 0 | 23 | 6 | 27 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

159 Mae fy archwilwyr wedi adnabod materion a oedd yn ymwneud â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol fel rhan o'r archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau. O'r gwaith parhaus ar gyfer archwiliadau seiliedig-ar-drafodiadau 2022-23 a 2023-24, rwyf wedi nodi bod y duedd yn debygol o barhau. Byddaf yn ystyried rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol fel thema lywodraethu yn y blynyddoedd i ddod.

160 Mae peidio â chydymffurfio â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol ynghyd â threfniadau cadw cofnodion gwael a threfniadau annigonol ar gyfer gwneud a chymeradwyo taliadau yn gadael cynghorau'n agored i golled ariannol.

# O ganlyniad i broblemau sylweddol mewn 23 o gynghorau fe gyhoeddais argymhellion statudol neu adroddiadau er budd y cyhoedd rhwng 2019 a 2024

## Mae fy adroddiadau er budd y cyhoedd ac argymhellion statudol yn codi o waith â ffocws penodol i fynd i'r afael â'r risgiau a amlygwyd gan fy nhîm archwilio

161 Mae fy ngwaith archwilio arferol wedi'i fwriadu i fod yn gymesur â maint cynghorau cymuned a'r symiau o arian cyhoeddus y maent yn eu rheoli. Dylai'r broses archwilio fod yn effeithlon a galluogi cynghorau i gyhoeddi cyfrifon archwiliedig yn unol â'r amserlen statudol ar gyfer cynghorau.

162 Mae fy archwilwyr yn gwneud gwaith archwilio manwl â ffocws penodol i fynd i'r afael â'r risgiau a adnabuwyd:

- pan nad yw cynghorau'n cyflwyno'r ffurflenni blynyddol o fewn amserlen resymol;
- pan geir anawsterau dro ar ôl tro wrth geisio cysylltu â chlerc y cyngor neu gael gwybodaeth y mae ei hangen ar gyfer yr archwiliad ganddynt;
- pan fo'r tîm archwilio'n adnabod materion sylweddol yn ystod eu gwaith archwilio arferol; a/neu
- pan fo etholwyr lleol yn arfer eu hawliau i ofyn cwestiynau yn ystod y broses archwilio neu i gyflwyno gwrthwynebiadau i'r cyfrifon.

## Gall cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ddysgu gwersi o'r adroddiadau er budd y cyhoedd a gyflwynwyd i 11 cyngor a'r argymhellion statudol a gyflwynwyd i 12 cyngor ers 2019

163 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ystyried, yn ystod fy archwiliad, a ddylwn lunio adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw er mwyn iddo gael ei ystyried gan y cyngor neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Cyfeiriaf at yr adroddiadau hyn fel adroddiadau er budd y cyhoedd neu adroddiadau budd y cyhoedd.

164 Mae gennyf hefyd bŵer statudol i gyflwyno argymhellion ysgrifenedig i gynghorau a'i gwneud yn ofynnol i'r cynghorau ystyried yr argymhellion hynny yn unol â darpariaethau penodol o fewn y Ddeddf. Cyfeiriaf at y rhain fel argymhellion statudol.

165 Pan fyddaf yn arfer y pwerau hyn, rhaid i gynghorau ystyried yr adroddiadau a/neu'r argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus a chyhoeddi eu hymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

166 Gall cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ddysgu gwersi o'r adroddiadau er budd y cyhoedd a gyflwynwyd i 11 cyngor a'r argymhellion statudol a gyflwynwyd i 12 cyngor ers 2019 fel y'u rhestrir yn **Atodiad 4**.

167 Fel arfer, rwy'n disgwyl i gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd fod yn ddigwyddiad anarferol. Ers 2019, fodd bynnag, rwyf wedi nodi cynnydd yn nifer y materion fel a nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn.

168 Mae cynghorau cymuned yn gyfrifol am reoli arian cyhoeddus a lle ceir methiannau sylweddol o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol mewn cynghorau unigol, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig dwyn y methiannau hyn i sylw'r gymuned a wasanaethir gan y cynghorau.

169 Er bod yr adroddiadau a'r argymhellion hyn yn cael eu cyfeirio at y cynghorau unigol, fel arfer ceir gwersi y gellir eu cymhwyso i gynghorau eraill ledled Cymru. Rwy'n argymell bod pob cyngor yn ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiadau a pha un a allai unrhyw un neu rai o'r materion a godwyd fod yn berthnasol iddynt hwy.

## Mae cynghorau cymuned wedi ysgwyddo gwariant sydd, yn fy marn i, yn anghyfreithlon

170 Ni all cynghorau cymuned ond ysgwyddo gwariant lle gallant ddangos bod ganddynt bwerau a swyddogaethau statudol i wneud hynny. Mae pwerau o'r fath yn cynnwys y pŵer i ddarparu a rhoi offer i adeiladau cymunedol, y pŵer i annog ymwelwyr a'r pŵer i ddarparu cyfleusterau hamdden[15].

171 Gall methu â gwneud hynny olygu bod y gwariant yn anghyfreithlon. Mae fy adroddiadau er budd y cyhoedd yn rhoi enghreifftiau o achosion lle mae cynghorau, yn fy marn i, wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 24 y pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n rhoi'r pŵer i gyngor wneud unrhyw beth y gall unigolion ei wneud yn gyffredinol. Nid yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gael i bob cyngor, dim ond i'r rhai sy'n gymwys trwy fodloni'r tri maen prawf cymhwystra:

- datganwyd fod dwy ran o dair o'r cynghorwyr wedi'u hethol;
- rhaid bod gan y cyngor glerc cymwysedig fel a nodir gan y rheoliadau; ac
- roedd y ddwy dystysgrif archwilio ddiweddaraf yn rhai diamod.

15 Gellir gweld rhestr ddangosol o ddyletswyddau a phwerau cyfreithiol yng Nghanllaw'r Cynghorydd Da 2022.

172 Nid yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn caniatáu i gynghorau osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau mewn deddfwriaeth bresennol. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd bod yn rhaid i bob cyngor weithredu'n rhesymol[16].

## Mae trefniadau rheolaeth fewnol annigonol yn thema gyffredin yn fy adroddiadau er budd y cyhoedd a gallant arwain at golledion oherwydd dwyn a thwyll neu achosi i gynghorau wneud taliadau anghyfreithlon

173 Gall rheolaethau mewnol annigonol mewn cynghorau cymuned arwain at golledion sy'n deillio o ddwyn a sgamiau, gan achosi risgiau ariannol sylweddol a phardduo enw da'r cyngor. Mae trefniadau rheolaeth fewnol annigonol yn creu cyfleoedd i unigolion sydd â mynediad at arian neu asedau'r cyngor fanteisio ar wendidau er mantais bersonol.

174 Mae cynghorau'n wynebu mwy o risg o dwyll a lladrad gan bod cynghorau'n aml yn dibynnu ar un unigolyn (y clerc fel arfer) sydd â rheolaeth ormodol dros brosesau ariannol. Heb graffu neu reolaethau priodol, gall cynghorau golli symiau sylweddol o arian, fel a welir yn ein hadroddiadau er budd y cyhoedd ar Gyngor Cymuned Llangynwyd Ganol, Cyngor Tref Maesteg, a Chyngor Cymuned Ynysawdre.

175 Mae ein hadroddiad ar Gyngor Cymuned Harlech yn dangos sut y gallai sgamiau sy'n targedu cynghorau cymuned fanteisio ar wendidau mewn rheolaethau mewnol i dwyllo aelodau neu staff cynghorau i awdurdodi taliadau.

176 Yn fy marn i, pan fydd cyngor yn methu â dilyn ei reolau mewnol ei hun neu ddilyn y broses briodol ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau, mae'n ysgwyddo gwariant anghyfreithlon. Mae cynghorau sydd â rheolaethau mewnol gwael hefyd yn fwy tebygol o ysgwyddo gwariant lle nad oes ganddynt yr awdurdod statudol i wneud y taliadau, fel a welwyd yng Nghyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd.

16 Rhaid i gynghorau weithredu'n unol â'r egwyddor a sefydlwyd yn achos Associated Provincial Picture Houses Ltd v Wednesbury Corporation (1948) a elwir yn achos Wednesbury.

# Atodiadau

1 Trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru

2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

3 Rhaglen archwilio yn y dyfodol

4 Adroddiadau er budd y cyhoedd ac argymhellion statudol

5 Ffioedd archwilio

6 Arweiniad pellach

# 1 Trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru

## Mae fy nhrefniadau archwilio ar gyfer cynghorau tref a chymuned wedi'u bwriadu i gyflawni fy nyletswyddau statudol o dan Ddeddf 2004 ac i roi sicrwydd sy'n gymesur â maint cynghorau unigol a'r risg i bwrs y wlad

Mae Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn datgan bod rhaid i bob corff llywodraeth leol lunio ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol).

Mae Deddf 2004 yn nodi fy nghyfrifoldebau i fel Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwilio cyfrifon cynghorau cymuned. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adrannau 17 a 23: dyletswyddau cyffredinol i sicrhau bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, i roi barn ar y cyfrifon ac i fod wedi fy argyhoeddi bod y cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- Adran 22: dyletswydd i ystyried a ddylwn i, er budd y cyhoedd, lunio adroddiad ynghylch unrhyw fater a ddaw i sylw'r Archwilydd Cyffredinol yn ystod yr archwiliad; ac
- Adrannau 30 a 31: dyletswydd i wneud trefniadau i etholwyr ofyn cwestiynau ynghylch y cyfrifon neu gyflwyno gwrthwynebiadau iddynt.

Wrth sefydlu'r trefniadau archwilio, rwyf wedi ystyried maint cymharol fach y sector yn ei gyfanrwydd a chynghorau unigol ac wedi mabwysiadu dull llai manwl na'r un a ddilynir ar gyfer rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned wedi'u bwriadu i:

- fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel archwilydd statudol cynghorau cymuned;
- darparu lefel resymol o sicrwydd i drigolion lleol ynghylch trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol effeithiol yn eu cyngor cymuned; a hefyd
- cynorthwyo pob cyngor i wella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol lle mae angen datblygu pellach.

## Y farn archwilio a'r sicrwydd a ddarperir

Mae'r broses archwilio wedi'i bwriadu i roi sicrwydd rhesymol ond nid sicrwydd llwyr bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol a bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian. Er mwyn sicrhau bod yr archwiliad yn gymesur, nid ydym yn cymhwyso Safonau Rhyngwladol ar Archwilio i gynghorau tref a chymuned. Gan hynny, rydym yn rhoi barn sicrwydd negyddol yn hytrach na barn sicrwydd gadarnhaol.

Gyda barn sicrwydd gadarnhaol, byddem yn datgan bod y Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cyngor. Gyda barn sicrwydd negyddol neu gyfyngedig rydym yn datgan nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n rhoi achos i ni bryderu neu sy'n awgrymu nad yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol.

Yn fy adroddiadau blaenorol ar drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn y sector, adnabûm gyfres o wendidau systemig a oedd yn effeithio ar gyfran fawr o gynghorau tref a chymuned. Nodais hefyd, yn yr achosion mwy arwyddocaol, fy mod o'r farn bod y gwendidau a adnabuwyd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau fy mod yn llunio adroddiad er budd y cyhoedd. Mewn rhai achosion, arweiniodd y diffygion a adnabuwyd at golled sylweddol i gynghorau unigol.

Mewn ymateb i'r materion hyn, yn 2020 fe ymgynghorais ynghylch ac fe gyhoeddais y Trefniadau Archwilio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru yn y Dyfodol a oedd yn nodi cyfundrefn archwilio newydd. Mae'r trefniadau newydd yn ymgorffori dull mwy trylwyr i helpu cynghorau i adnabod meysydd i'w gwella cyn gynted â phosibl ac i osgoi canlyniadau mwy difrifol sy'n codi pan na fydd diffygion yn cael eu canfod. Cyhoeddais weminar hefyd a oedd yn nodi sut y bydd y trefniadau archwilio'n gweithio'n ymarferol.


Mae dwy elfen i'r rhaglen archwilio:

- rhaglen waith wedi'i chynllunio sy'n dilyn cylch tair blynedd. Mae'r trefniant hwn yn berthnasol i bob cyngor. Bydd pob cyngor yn cael archwiliad gweithdrefnau diffiniedig cyfyngedig mewn dwy o'r tair blynedd ac archwiliad manylach yn y drydedd flwyddyn.
- gwaith adweithiol a wneir mewn cynghorau unigol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gall y gwaith hwn ddeillio o faterion sylweddol a gododd trwy eu hadnabod yn ystod y gwaith archwilio arfaethedig, neu mewn ymateb i faterion a godwyd gan gwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr, a gohebiaeth arall a gawn o bryd i'w gilydd.

Crynhoir y trefniadau newydd yn **Arddangosyn 11** isod:

**Arddangosyn 11 – y dull archwilio allanol**

Mae'r archwiliad allanol yn dilyn cylch tair blynedd sy'n ymgorffori dau archwiliad sylfaenol ac un archwiliad manylach ym mhob cyngor.




Ffynhonnell: Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Drefniadau Archwilio'r Dyfodol

Mae'r broses archwilio gweithdrefnau cyfyngedig yn cynnwys adolygiad o'r cyfrifon blynyddol ac archwiliad o drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y cyngor sy'n sail i sicrhau gwerth am arian o ran y modd y mae cynghorau'n defnyddio adnoddau.

Mae'r dull seiliedig-ar-drafodiadau teirblynyddol yn golygu bod archwilwyr yn archwilio cyfrifon cyngor unigol ac yn olrhain trafodiadau yn ôl at gofnodion gwreiddiol, gan gadarnhau cyflawnrwydd a chywirdeb y cyfrifon.

Yn ogystal â gwneud y gwaith archwilio craidd hwn, mae archwilwyr yn cyflawni gwaith archwilio atodol pan dybir bod angen hynny. Gallai'r gwaith ychwanegol hwn godi:

- pan fo cynghorau'n methu â chyflwyno cyfrifon i'w harchwilio mewn modd amserol; neu
- pan fo'r broses archwilio yn adnabod materion sylweddol; neu
- pan ydym yn cael cwestiynau, gwrthwynebiadau a gohebiaeth arall sy'n codi pryderon sylweddol ynghylch cynghorau unigol.

Roedd disgwyl i'r trefniadau newydd ddechrau ar gyfer archwilio cyfrifon 2020-21. Fodd bynnag, am bod effaith COVID-19 wedi achosi oedi sylweddol wrth gwblhau cyfrifon 2019-20, gohiriwyd gweithredu'r trefniadau am flwyddyn. Felly cychwynnodd y cylch teirblynyddol o ddau archwiliad gweithdrefnau cyfyngedig ac un archwiliad seiliedig-ar-drafodiadau ar gyfer archwilio cyfrifon 2021-22. Er mwyn rheoli'r rhaglen ar y cyfan ar draws pob cylch teirblynyddol, rhoddwyd pob cyngor mewn un o dri grŵp fel bod traean o'r cynghorau, mewn unrhyw flwyddyn benodol, yn mynd trwy'r broses archwilio lawn.

# 2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r cyngor yn gwneud cyfres o haeriadau ynghylch sut y mae wedi rheoli ei faterion ariannol. Dylai pob cyngor allu darparu tystiolaeth briodol i ategu ateb cadarnhaol i haeriad.

<table>
<tr><th>Haeriad</th><th>Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi</th></tr>
<tr><td>1. Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• gwaith rheoli ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.</td><td>• Pennu ei gyllideb yn briodol a monitro ei berfformiad yn erbyn y gyllideb.<br>• Cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol a dogfennau ategol.<br>• Cysoni ei gofnodion cyfrifyddu â'i gyfrifon banc i gadarnhau cyflawnrwydd a chywirdeb y cofnodion cyfrifyddu.<br>• Paratoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu blynyddol yn unol â'r rheoliadau.</td></tr>
<tr><td>2. Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a oedd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.</td><td>• Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian a'r adnoddau cyhoeddus yn ei ofal.<br>• Sicrhau bod ei asedau'n cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol.<br>• Sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth a bod ganddo drefniadau cadarn ar waith i sicrhau dilysrwydd holl drafodiadau'r gyflogres.<br>• Adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau rheolaeth fewnol.</td></tr>
<tr><td>3. Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni ein hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.</td><td>• Sefydlu trefniadau penderfynu priodol i sicrhau bod ei holl weithgareddau'n cyd-fynd â'i bwerau statudol i weithredu.<br>• Sefydlu gweithdrefnau i adolygu'r modd y mae'n cydymffurfio â rheoliadau statudol a bod gofynion newydd neu sydd wedi newid yn cael eu gwneud yn hysbys i'r aelodau.<br>• Ei argyhoeddi ei hun nad yw wedi gwneud unrhyw benderfyniadau nac wedi awdurdodi unrhyw gamau gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i'w bwerau neu sy'n groes i gyfreithiau, rheoliadau neu arferion priodol.</td></tr>
</table>

| Haeriad | Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi |
|---|---|
| 4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | • Gwneud trefniadau priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru).<br>• Cyhoeddi hysbysiad o gwblhau archwiliad y flwyddyn flaenorol yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). |
| 5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | • Adnabod, asesu a chofnodi risgiau sy'n gysylltiedig â'i weithredoedd a'i benderfyniadau a allai arwain at ganlyniadau ariannol neu i'w enw da.<br>• Gwneud trefniadau priodol i liniaru neu reoli'r risgiau hynny.<br>• Cofnodi ac adolygu'r risgiau a'r trefniadau cysylltiedig. |
| 6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli trwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | • Wedi trefnu i berson cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ynghylch pa un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.<br>• Darparu'r holl ddogfennau perthnasol a gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr archwilydd mewnol.<br>• Cael ac ystyried adroddiad gan yr archwilydd mewnol yn nodi canfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd. |
| 7. Rydym wedi ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | • Ystyried a oes unrhyw ddigwyddiadau wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu ar ôl diwedd y flwyddyn a allai arwain at ganlyniadau ar gyfer sefyllfa ariannol y cyngor.<br>• Adlewyrchu'r canlyniadau hyn lle bo'n briodol gwneud hynny. |

| Haeriad | Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi |
|---|---|
| 8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | • Ystyried yr holl adroddiadau a gafwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol.<br>• Adnabod a chymryd yr holl gamau priodol sy'n ofynnol i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd gan yr archwilwyr. |
| 9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – Mae'r corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer cronfa(cronfeydd)/asedau'r ymddiriedolaeth ac mae'n gyfrifol am eu rheoli. Nid ydym yn cynnwys trafodiadau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolaethau hyn yn y Datganiad Cyfrifyddu. Yn ein cymhwyster fel ymddiriedolwr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa(cronfeydd) gan gynnwys adroddiadau ariannol ac, os yw'n ofynnol, archwiliad annibynnol. | • Cyflawni ei holl gyfrifoldebau lle mae'n unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth leol neu ymddiriedolaethau lleol. |

# 3 Rhaglen archwilio yn y dyfodol

## Mae fy nhrefniadau archwilio wedi'u bwriadu i sicrhau bod gan gynghorau drefniadau priodol heb ychwanegu baich ychwanegol ar gynghorau unigol

Un o ystyriaethau allweddol dull Archwilio Cymru o adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yw archwilio meysydd y gellir disgwyl yn rhesymol i gynghorau fod â threfniadau ar waith ar eu cyfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu meysydd lle mae gan gynghorau ddyletswydd statudol i roi trefniadau ar waith neu lle mae trefniadau o'r fath, er na fanylir arnynt mewn cyfraith, yn hanfodol er mwyn darparu system rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol.

Mae mabwysiadu'r dull hwn yn golygu na ddylai fod yn ofynnol i gynghorau wneud unrhyw waith ychwanegol sylweddol yn ychwanegol at yr hyn y dylent fod yn ei wneud eisoes. Dylai tystiolaeth i ategu'r haeriadau a wnaed yn y DLlB fod ar gael yn rhwydd.

Bydd archwilwyr felly'n gofyn i gynghorau ddarparu tystiolaeth wedi'i dogfennu eu bod wedi rhoi trefniadau ar waith. Gall hyn gynnwys:

- Copïau o ddogfennau perthnasol a gyflwynwyd i'r cyngor e.e. cyllidebau
- Copïau o gofnodion perthnasol sy'n dangos bod y cyngor wedi mabwysiadu polisïau gofynnol neu wedi gwneud penderfyniadau
- Copïau o ddogfennau a gyflwynwyd i'r cyngor gan drydydd partïon e.e. adroddiadau archwilio mewnol, atodlenni yswiriant

## Bydd fy null archwilio ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn parhau i ganolbwyntio ar feysydd cyffredin sy'n achosi pryder lle mae cyfle sylweddol i wella ar draws y sector yn ei gyfanrwydd

Mewn blynyddoedd blaenorol, nodais ymlaen llaw beth fyddai manylion fy rhaglen archwilio ar gyfer archwilio themâu llywodraethu allweddol. Wrth edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, bydd fy rhaglen archwilio'n parhau i ganolbwyntio ar feysydd lle mae cyfle i gynghorau lleol wella eu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar themâu a adnabuwyd drosodd a throsodd fel rhan o'r cylch archwilio blynyddol a bwriedir iddi helpu cynghorau i wella eu trefniadau, lle y bo angen, dros amser. Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r amserlen arfaethedig gyfredol ar gyfer themâu llywodraethu yn y dyfodol. Dylai cynghorau nodi y gallai'r rhain newid os bydd materion sylweddol yn codi o'r archwiliadau blynyddol.

**Arddangosyn 12: themâu archwilio yn y dyfodol o 2024-25 i 2028-29**

| | Sylw archwilio craidd (sylfaenol/ llawn) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Mewn ymgynghoriad â’r gymuned, rydym wedi datblygu gweledigaeth a phwrpas i’r Cyngor ac wedi defnyddio’r weledigaeth hon i oleuo cynlluniau, cyllideb a gweithgareddau’r Cyngor. | Gwiriad archwilio Sylfaenol Blynyddol ar gyfer cynghorau > £200,000 | | Adroddiad blynyddol | | Adroddiad blynyddol | |
| 2. Rydym wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion ac wedi gweithredu cynllun hyfforddi priodol ar gyfer aelodau er mwyn sicrhau bod pob cynghorydd yn deall ei rôl a’i gyfrifoldebau. | | Copi o’r cynllun hyfforddi | | | Copi o’r Cod ac o dderbyn y swydd gan yr aelod | |
| 3. Rydym wedi sicrhau ein bod yn cyhoeddi’r wybodaeth y mae’n ofynnol yn gyfreithiol i’r Cyngor ei chyhoeddi yn electronig, ar ei wefan [mewnosoder enw’r wefan]. | Wedi’i gynnwys mewn archwiliad llawn teirblynyddol a thrwy eithriad mewn archwiliad sylfaenol | | | | | |

| | Sylw archwilio craidd (sylfaenol/ llawn) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys benthyca, cyflogi staff, a thalu lwfansau i aelodau. | Wedi'i gynnwys mewn archwiliad llawn teirblynyddol a thrwy eithriad mewn archwiliad sylfaenol | | | | | |
| 5. Rydym wedi mabwysiadu rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol a chylchoedd gorchwyl ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn wrth gynnal busnes gan gynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgorau. | Cydymffurfio â'r rheolau sefydlog/ rheoliadau ariannol wedi'i gynnwys mewn archwiliad llawn a thrwy eithriad mewn archwiliad sylfaenol | | | | | Cynllun dirprwyo a chylchoedd gorchwyl ar gyfer pwyllgorau |

| | **Sylw archwilio craidd (sylfaenol/ llawn)** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol gan gynnwys pennu a monitro cyllideb y Cyngor;<br>• cadw a diogelwch cofnodion cyfrifyddu a chofnodion ariannol eraill sy'n gywir ac yn gyfredol; ac<br>• adnabod rhwymedigaethau, ymrwymiadau, digwyddiadau a thrafodiadau posibl a allai gael effaith ariannol ar y Cyngor. | Cadw cofnodion wedi'i gynnwys mewn archwiliad llawn teirblynyddol a thrwy eithriad mewn archwiliad sylfaenol | Rhestr o brosiectau cyfalaf wedi'u arfaethedig | Trefniadau monitro'r gyllideb gan gynnwys cronfeydd wrth gefn | Templed i gynghorau ei gwblhau i esbonio sut y maent yn adnabod rhwymedigaethau, ymrwymiadau ac ati | | |

| | Sylw archwilio craidd (sylfaenol/ llawn) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol a rheoli risg ddigonol, gan gynnwys:<br>• mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth gan gynnwys gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer awdurdodi a gwneud taliadau;<br>• asesu a rheoli risgiau sy'n wynebu'r Cyngor;<br>• system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol; ac<br>• adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn. | Trefniadau ar gyfer gwneud taliadau ac yswiriant yn cael eu hadolygu mewn archwiliad llawn | | Cylch gorchwyl ac adroddiad archwilio mewnol | | | Adroddiad asesu risg i'r cyngor |

| | Sylw archwilio craidd (sylfaenol/ llawn) | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. Rydym wedi cymryd camau priodol ar yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | Wedi'i gynnwys yn flynyddol mewn camau archwilio sylfaenol | | | | | |
| 9. Rydym wedi rhoi cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | | Cyhoeddi hysbysiad o gwblhau archwiliad 2023-24 gan gynnwys y farn archwilio | | Tystiolaeth o gyhoeddi hysbysiad archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol | | |
| 10. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol – Mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. | Gwirio yn ôl y gofyn i fynd i'r afael â materion archwilio | | | | | |

# 4 Adroddiadau er budd y cyhoedd ac argymhellion statudol

Mae Deddf 2004 yn gosod dyletswyddau ar yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried a ddylai gyhoeddi adroddiad cyhoeddus ar ganfyddiadau ei archwiliad ai peidio:

- Adran 22: Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried ym mhob archwiliad a oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw y dylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd arnynt yn ei dyb ef.
- Adran 25: Caiff yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno argymhellion ysgrifenedig i gyngor a ddylai, yn ei dyb ef, gael eu hystyried gan y Cyngor yn yr un modd ag y caiff adroddiadau er budd y cyhoedd eu hystyried. Cyfeiriwn at yr argymhellion hyn fel argymhellion statudol.

Yn y ddau achos, rhaid i'r awdurdod sy'n derbyn gynnal cyfarfod cyhoeddus i ystyried yr adroddiad a/neu'r argymhellion a rhaid iddo gyhoeddi ymateb i'r adroddiad neu'r argymhellion.

## Ers fy adroddiad cenedlaethol diwethaf ar archwiliadau 2018-29, rwyf wedi cyflwyno 11 adroddiad er budd y cyhoedd i gynghorau cymuned

Cyhoeddir adroddiadau er budd y cyhoedd pan fydd fy archwiliad yn nodi methiannau difrifol sy'n sylfaenol i'r archwiliad neu i drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor.

Ers mis Ionawr 2020, rwyf wedi cyhoeddi 11 adroddiad er budd y cyhoedd i dynnu sylw at faterion sylweddol mewn cynghorau unigol. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- Methu â pharatoi cyfrifon i'w harchwilio a/neu beidio â chydweithredu â'r broses archwilio neu beri rhwystr iddi
- Methiannau sylweddol o ran rheolaeth fewnol a arweiniodd at golledion o werth mawr i gynghorau
- Arferion caffael gwael
- Methiant perthnasoedd o fewn cynghorau

Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 13: Adroddiadau er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd ers 2020**

Ers mis Ionawr 2020, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau er budd y cyhoedd i un ar ddeg o gynghorau yng Nghymru

| Adroddiadau er budd y cyhoedd |
| --- |
| Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd |
| Cyngor Tref Rhydaman |
| Cyngor Cymuned Harlech |
| Cyngor Cymuned Llanferres |
| Cyngor Cymuned Llangynwyd Ganol |
| Cyngor Cymuned Llanpumsaint |
| Cyngor Tref Maesteg |
| Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy |
| Cyngor Cymuned Sant Harmon |
| Cyngor Cymuned Sili a Larnog |
| Cyngor Cymuned Ynysawdre |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

## Yn ogystal â'r adroddiadau er budd y cyhoedd, rwyf wedi cyflwyno argymhellion statudol i 12 cyngor arall ledled Cymru

Rwy'n cyflwyno argymhellion statudol pan adnabyddir materion sylweddol yn ystod archwiliad, ond pan ystyrir nad yw'r materion hyn yn hollbresennol yn nhrefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor ar y cyfan.

Dylid cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar wefannau'r cynghorau unigol.

**Arddangosyn 14: adroddiadau gydag argymhellion statudol a gyhoeddwyd ers 2020**

Ers mis Ionawr 2020, rwyf wedi cyflwyno argymhellion statudol i ddeuddeg cyngor ledled Cymru

| Adroddiadau gydag argymhellion statudol |
|---|
| Cyd-fwrdd Claddu Abergele |
| Cyngor Cymuned Aberporth |
| Cyngor Dinas Bangor |
| Cyngor Cymuned Bethesda |
| Cyngor Cymuned Blaengwrach |
| Cyngor Cymuned Clocaenog |
| Cyngor Cymuned Crai |
| Cyngor Cymuned Johnston |
| Cyngor Cymuned Llandyrnog |
| Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri |
| Cyngor Cymuned Dyffryn Ogwr |
| Cyngor Cymuned Llanisan-yn-Rhos |

# 5 Ffioedd archwilio

Mae Adran 20 o Ddeddf 2004 yn nodi'r sail y byddwn yn codi ffioedd arni ar gyfer yr archwiliad ac yn nodi:

- rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas ag archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Cynhwysir y raddfa hon yn y Cynllun Ffioedd blynyddol;
- rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi yn unol â'r Cynllun Ffioedd mewn perthynas â swyddogaethau a arferir gan yr Archwilydd Cyffredinol: a
- rhaid i gorff llywodraeth leol yng Nghymru dalu'r ffi sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r archwiliad yn unol â'r raddfa briodol.

Codir ein ffioedd archwilio fesul awr yn ôl cyfraddau ffioedd sy'n gysylltiedig â graddau. Mae'r cyfraddau fesul awr wedi'u nodi yn y Cynlluniau Ffioedd blynyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith archwilio'n cael ei gwblhau gan ein hyfforddeion a'n prentisiaid. Caiff eu gwaith ei adolygu gan un o'n huwch archwilwyr ac fe'i hadolygir yn derfynol gan reolwr neu gyfarwyddwr archwilio. Mae angen rhagor o amser ar gyfer adolygiad gan uwch archwilydd, rheolwr a/neu gyfarwyddwr lle mae'r archwiliad wedi adnabod materion sy'n arwain at farn amodol neu at gyflwyno adroddiad.

Felly, mae cyfanswm y ffi a godir yn uniongyrchol gysylltiedig ag ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir gan y cynghorau. Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ynghylch ystodau ffioedd dangosol ar gyfer y sector sy'n ystyried ein profiad o'r gwaith a fydd yn ofynnol o dan y trefniadau archwilio newydd.

Fel rheol, mae ein ffioedd yn amrywio o oddeutu £200 i £400 ar gyfer archwiliad sylfaenol ac o oddeutu £300 i £1,500 ar gyfer archwiliad llawn. Ceir eithriadau gyda ffioedd uwch. Mewn rhai achosion, y cynghorau mwy sydd â gweithgareddau mwy cymhleth sydd felly'n arwain at estyn ein profion archwilio yw'r rhain. Mewn achosion eraill, gall fod gohebiaeth neu faterion penodol a sylweddol.

Mae gwerth bach ffioedd unigol yn golygu y gallai ychydig bach o waith ychwanegol arwain at gynnydd canrannol mawr yng nghost yr archwiliad er bod gwerth absoliwt y cynnydd yn swm bach o arian. Ar yr amod bod cynghorau'n cyflwyno cyfrifon ar amser ynghyd â gwybodaeth lawn ac nad oes unrhyw faterion yn codi yn ystod yr archwiliad, yna bydd y ffi archwilio'n fach o ran gwerth ac nid yn afresymol o ddrud.

# 6 Arweiniad pellach

## Mae Archwilio Cymru'n cyhoeddi adroddiadau sy'n berthnasol i gynghorau cymuned ar ei wefan

Yn ogystal ag adroddiadau er budd y cyhoedd a gyflwynwyd i gynghorau unigol (gweler **Atodiad 4**), ers 2009, mae Archwilio Cymru wedi bod yn cyhoeddi adroddiadau cenedlaethol amrywiol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r sector. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiadau Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol blynyddol, deunyddiau'r Gyfnewidfa Arfer Da, ac adroddiad ar archwilio mewnol yn y sector. Gall pob cyngor gael mynediad at y dogfennau hyn yn rhad ac am ddim.

## Mae Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru: Canllaw i Ymarferwyr (y Canllaw i Ymarferwyr) ar gael yn rhad am ddim i bob cyngor yng Nghymru

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn nodi bod y Canllaw i Ymarferwyr yn cynrychioli arfer cyfrifyddu priodol ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru. Felly mae'n ddeunydd darllen hanfodol i bob cyngor.

Cyhoeddir y Canllaw i Ymarferwyr ar wefannau Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ac mae ar gael yn rhad ac am ddim mewn fformat electronig i bob cyngor. Gellir prynu copi wedi'i argraffu o'r Canllaw i Ymarferwyr gan Un Llais Cymru.

## Datblygwyd y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref i helpu cynghorau i fynd i'r afael â materion cyffredin

Cafodd y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref ei ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Un Llais Cymru ac SLCC. Bydd y pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo cynghorau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol, bod â rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu cryf, a sicrhau'r deilliannau gorau i'w cymunedau.

Mae ar gael yn rhad ac am ddim gan Un Llais Cymru ac SLCC. Mae Un Llais Cymru hefyd yn darparu Canllaw Cyflym a thaflen Cwestiynau Cyffredin i gynorthwyo cynghorau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.